

Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

9 Mai 2024

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell trwy fideo-gynadledda ar Ddydd Iau, 16 Mai 2024 am 10.00am i drafod y materion canlynol:

- 1. Ymddiheuriadau**
- 2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
- 3. Adroddiad Perfformiad Diwygio Lles (Tudalennau 3 - 8)**
- 4. Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion (Tudalennau 9 - 56)**
- 5. Trosolwg o'r materion ariannol yn ystod y flwyddyn (Tudalennau 57 - 60)**
- 6. Adroddiad Blynyddol Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2023-2024 (Tudalennau 61 - 86)**
- 7. Blaenraglen Waith (Tudalennau 87 - 90)**
- 8. Cadarnhau cofnodion 12.03.2024 a'r 21.03.2024 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 91 - 100)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir



Miss Lowri Edwards

Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau
Corfforaethol**

Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**Adroddiad i'r:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol**Dyddiad y cyfarfod:** 16 Mai 2024**Teitl:** Adroddiad Perfformiad ar Ddiwygio Lles**Pwrpas yr adroddiad:** Darparu datganiad sefyllfa mewn perthynas ag agweddau amrywiol ar Ddiwygio Lles**Rheswm fod Craffu ar Reswm wedi gofyn am y wybodaeth:** Er gwybodaeth.**Portffolio'r Cabinet a'r Aelod Cabinet:** Aelod Cabinet dros Gyllid a Chaffael - y Cynghorydd Gareth Davies**Cefndir**

Cyflwynwyd Bil Diwygio Lles 2010-12 i'r Senedd ar 16 Chwefror 2011 gyda'r nod o greu cymhellion i gael mwy o bobl i mewn gwaith trwy sicrhau bod 'gwaith bob amser yn talu', 'amddiffyn aelodau bregus o gymdeithas' a 'sicrhau tegwch i'r rhai sy'n hawlio budd-dal ac i'r trethdalwr'. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 8 Mawrth 2012. Prif amcan y newidiadau oedd lleihau'r cost y budd-daliadau cenedlaethol drwy wneud gwaith yn opsiwn mwy deniadol i bobl o oedran gweithio.




Mae rhai o'r diwygiadau allweddol a gyflwynwyd gan Ddeddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys:

- Cyflwyno **Credyd Cynhwysol (CC)**.
- meini prawf maint newydd (**Cymhorthdal Ystafell Sbâr**) yn y sector rhentu cymdeithasol ar gyfer y rhai sydd yn meddiannu eiddo.
- Cap **budd-daliadau** sy'n cyfyngu ar gyfanswm yr incwm o fudd-daliadau penodol y gall aelwyd eu derbyn.
- Diddymu Budd-dal y Dreth Gyngor gyda chyfrifoldeb am drefnu **Cymorth / Gostyngiadau Treth y Cyngor (CGTC)** ar gyfer y rhai sydd ar incwm isel yn trosglwyddo o'r Adran Gwaith a Phensiynau (AGP) i awdurdodau lleol yn Lloegr ac i'r Llywodraethau datganoledig yng Nghymru a'r Alban.

Y Sefyllfa bresennol o ran staffio a llwyth gwaith achosion

Ein cyflenwad staffio Budd-daliadau presennol yw 8 aelod o staff llawn amser (gyda swydd wag yn ogystal).

Ar 31 Mawrth 2024 roedd llwyth gwaith achos Budd-dal Tai (BT) a Gostyngiadau Treth y Cyngor (CGTC/GTG) fel a ganlyn:

Lliw	Disgrifiad	Gwerth
	Nifer achosion BT/GTC ar y cyd	2153
	Nifer achosion BT yn unig	182
	Nifer achosion GTC yn unig	3019

Tudalen 4

Credyd Cynhwysol (CC)

Bwriad Credyd Cynhwysol (CC) yw cefnogi pobl sydd ar incwm isel neu yn ddi-waith, a gyflwynwyd er mwyn symleiddio'r system fudd-daliadau. Mae'n cyfuno'r chwe budd-daliad etifeddol a restrir isod ac yn eu huno'n un taliad a fydd yn cael ei dalu'n fisol mewn ôl-daliad:

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant
- Budd-dal Tai (BT)

Cwblhawyd y cyflwyniad Cenedlaethol o'r 'Gwasanaeth Llawn' CC ym mis Rhagfyr 2018 gyda Cheredigion yn un o'r rhai olaf i'w gyflwyno ar 5 Rhagfyr 2018.

O'r dyddiad hwn roedd CC yn agored ym mhob rhan o'r wlad ar gyfer **ceisiadau newydd** neu i'r rhai gyda **newid yn eu hamgylchiadau** (trosglwyddo naturiol).

Ers 5 Rhagfyr 2018 gall Ceredigion ddim ond derbyn ceisiadau newydd am BT os yw'r ymgeisydd:

- O Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (os ydynt yn un o gwpl mae'n rhaid i'r ddau fod oedran Pensiwn y Wladwriaeth).
- Yn byw mewn llety cymorth sy'n darparu gofal, cefnogaeth a goruchwyliaeth.
- Wedi'u osod mewn llety dros dro gan Gyngor Sir Ceredigion.

Ym mis Tachwedd 2023, cadarnhaodd gwefan y Senedd fod 67% o aelwydydd Ceredigion yn derbyn Credyd Cynhwysol.

Cyflwyniad llwyth gwaith achosion Credyd Cynhwysol ym mis Tachwedd 2023

Dewiswch etholaeth o'r gwymplen:

Ceredigion

Aelwydydd ar Credyd Cynhwysol neu etifeddol, yn ôl math o gefnogaeth

	Credyd Cynhwysol	Buddion etifeddol	% ar CC
Cyfanswm: pob aelwyd			
Ceredigion	4,282	2,141	67%
Cymru	264,665	101,413	72%
Prydain	5,360,170	1,661,099	76%

Mae'r amserlen cyflwyno CC wedi cael ei gwthio yn ôl dro ar ôl tro. Y cam nesaf yw'r "*Managed Migration (Move to UC)*" sef y broses o symud pob hawliwr budd-dal etifeddol, nad yw eu hamgylchiadau wedi newid, draw i CC. Er bod hyn wedi'i amserlennu i ddechrau yn

Tudalen 5

2024/25 mae adroddiad y Tŷ'r Cyffredin "Managed migration: Completing Universal Credit rollout" yn cadarnhau "Under the latest plans, managed migration of the final group of legacy claimants will not happen until 2028/29."

Dylid nodi, er y bydd hawlwyrr budd-dal etifeddol oedran gweithio yn trosglwyddo i CC maes o law, byddwn yn parhau i ofalu am achosion ar gyfer CGTC.

Cymhorthdal Ystafell Sbâr (Treth Ystafell Wely)

Mae'r gostyngiad cymhorthdal ystafell sbâr (neu 'dreth ystafell wely' fel y'i gelwir yn fwy cyffredin) yn berthnasol os oes gan denant sydd o oedran gweithio sydd yn rhentu gydag awdurdod lleol neu gymdeithas dai cymdeithasol ystafelloedd gwely a ystyrir i fod yn 'sbâr'. Mae un ystafell wely yn fwy na'r lwfans cyfrifedig yn arwain at ostyngiad o 14% ac mae dau neu fwy o ystafelloedd gwely 'sbâr' yn golygu y bydd tenant yn colli 25% o'u BT neu CC.

Ar hyn o bryd mae 196 o aelwydydd **BT** wedi'u heffeithio gan y newid Diwygio Lles hwn, gan arwain at golli BT wythnosol cyfun sydd a chyfanswm o £3,508 (£182,416 y flwyddyn) i aelwydydd Ceredigion.

Ers i Gymhorthdal Ystafell Sbâr gael ei gyflwyno ym mis Ebrill 2013, mae'r Cyngor wedi cefnogi'r tenantiaid tai cymdeithasol mwyaf anghenus yr effeithiwyd arnynt gan y gostyngiad hwn yn eu dyfarniad BT. Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf (1 Ebrill 23 i 31 Mawrth 24), dyfarnwyd cyfanswm o £62,569 mewn Taliadau Tai Dewisol i dalu am y golled a achoswyd gan y gostyngiadau cymhorthdal ystafell sbâr.

Y prif reswm dros barhau i gefnogi'r math hwn o ostyngiad yw'r prinder eiddo llai o faint addas sydd i'w cael.

Y Cap Budd-daliadau

Cyflwynwyd y Cap Budd-daliadau yng Ngheredigion ym mis Tachwedd 2013 ac mae'n cyfyngu ar swm y BT y gall hawllydd oedran gweithio ei dderbyn os yw cyfanswm y budd-dal lles penodol sy'n daladwy yn fwy na throthwy penodol. Diben y cap yw annog pobl i geisio gwaith a sicrhau nad yw'r rhai sydd yn ddi-waith yn derbyn mwy o fudd-daliadau na aelwyd sy'n gweithio yn gyffredinol. Ar hyn o bryd mae cyfanswm yr incwm budd-dal 'di-waith' blynyddol y gall aelwyd 'oedran gweithio' ei dderbyn iddo wedi'i osod ar:

- £22,020 i gyplau a rhieni sengl (£1,835 y mis/£423.46 yr wythnos)
- £14,753 ar gyfer hawllydd sengl (£1,229.42 y mis/£283.71 yr wythnos)

(Ar gyfer cartrefi o fewn Llundain Fwyaf, mae'r cap yn £25,323 ar gyfer cyplau/rhieni sengl a £16,967 ar gyfer hawllydd sengl).

Ar hyn o bryd mae 4 hawliad **BT** wedi'u heffeithio gan y Cap Budd-daliadau, gan arwain at golli BT wythnosol cyfunol i aelwydydd Ceredigion o £254 (£13,208 y flwyddyn).

Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (CGTC)

Pan ddiddymodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig (LIDU) Fudd-dal Treth y Cyngor ar 01 Ebrill 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru (LIC) Gynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor (CGTC) cenedlaethol. Er bod y cyllid o LIDU wedi gostwng 10%, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fodloni'r diffyg hyd yma a sicrhau bod y rhai sy'n gymwys i gael cymorth yn parhau i gael hyd at y lefel uchaf o hawliau h.y. 100% o atebolrwydd Treth y Cyngor.

Tudalen 6

Yn flynyddol mae Cyngor Sir Ceredigion yn mabwysiadu cynllun CGTC ac yn ei weinyddu ar ran LIC.

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gwariant a llwyth gwaith achosion CGTC yn:

Cyfnod yn diwedd		31 Mawrth 2024
Cyfanswm gwariant CGTC (i 0 pwynt degol)		£6,476,459
Llwyth gwaith achosion		5,163

Mae LIC yn talu'r rhan fwyaf o'r gost taliadau CGTC, ond mae'r gofyniad i Gyngorau dalu cost taliadau sy'n fwy na chyfraniad LIC yn sylweddol.

Trosglwyddwyd cyllid ar gyfer y CGTC i'r Refeniw Cymhorthdal yn y flwyddyn ariannol 2013/14, a oedd yn cyfateb i £4.733m ar gyfer Geredigion. O ran y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol 23/24, yr Aseiad Gwariant Safonol i Geredigion ar gyfer costau CGTC oedd £5.197m. Felly, mae tua £1.3m o gostau nad ydynt yn cael eu cydnabod gan Lywodraeth Cymru yn y Setliad Cyllid Llywodraeth Leol.

Mae cyllideb CGTC yn eistedd yng nghyllideb y gwasanaeth Cyllid a Chaffael ac mae'n un sy'n amrywio, a chaiff hyn e gydnabod yn gorfforaethol ym mhroses y gyllideb. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod cydberthynas uniongyrchol rhwng un flwyddyn a'r llall â'r costau sy'n gysylltiedig â'r cynllun a lefel y cynnydd yn y Dreth Gyngor a bennir gan Aelodau bob blwyddyn.

Taliadau Tai Dewisol (TTD)

Mae'r Llywodraeth yn darparu cyllideb gyda chyfyngedig arian i bob Awdurdod Lleol bob blwyddyn i helpu'r rhai sydd fwyaf mewn angen. Dim ond i'r rhai sy'n derbyn BT neu CC (elfen tai) a allai fod angen cymorth ariannol pellach gyda'u costau tai y gellir ei ddyfarnu.

Mae'n anochel bod y newidiadau Diwygio Lles ers 2013 wedi arwain at lai o BT a CC (elfen dai) i lawer. Mae'r Tîm Budd-daliadau ers 2013 wedi dyfarnu cyfanswm o £3,297 miliwn i helpu dinasyddion i dalu elfennau o'u costau tai. Mae'r mathau o daliadau a wneir yn amrywio o helpu i sicrhau llety arall a chostau symud cysylltiedig i gynorthwyo gydag ymrwymadau rhent parhaus. Mae atal digartrefedd yn un o nodau allweddol y cynllun a heb gefnogaeth TTD does dim amheuaeth y byddai llawer o bobl Ceredigion wedi bod yn ddigartref yn ystod y cyfnod hwn.

Ein dyraniad TTD gan y Llywodraeth ar gyfer 2023/24 oedd £275,132. Cyfanswm gwariant TTD am y cyfnod hwn oedd £282,288. Dros y 3 blynedd diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gefnogi unrhyw orwariant TTD o'r Gronfa Atal Digartref. Bydd y trefniant hwn hefyd yn parhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Y Dyfodol

Byddwn yn parhau i ymgysylltu a gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi'r "*managed migration (move to UC)*" ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau oedran gwaith.

Yn naturiol, bydd gostyngiad yn ein llwyth achosion BT wrth i achosion BT o symud i CC, fodd bynnag, byddwn yn parhau i fod yn gyfrifol am holl achosion CGTC.

Bydd y Tîm Budd-daliadau yn parhau i fod yn gyfrifol am weinyddu:

Tudalen 7

- Ceisiadau BT hawlwr oedran pensiwn y wladwriaeth (os yn rhan o gwpl, rhaid fod y ddau oedran Pensiwn y Wladwriaeth)
- Ceisiadau BT y rhai sy'n byw mewn llety â chymorth sy'n darparu gofal, cefnogaeth a goruchwyliaeth.
- Ceisiadau BT y rhai a osodwyd mewn llety dros dro gan Gyngor Sir Ceredigion
- Ceisiadau CGTC
- Cynyddu yn y llwyth gwaith oherwydd newidiadau yn nhaliadau'r CC *
- TTD ar gyfer hawlwr BT a CC
- Ad-hawlio BT a or-dalwyd – 266 anfoneb sy'n gyfanswm o £ 335.9k ar 31 Mawrth 24
- Prydau Ysgol am Ddim (PYaDd) – 1870 o ddisgyblion ym mis Ionawr 2024
- Grant Hanfodion i Ysgolion (GHiY) – 1100 wedi'u rhoi (£145k) ar ddechrau'r flwyddyn ysgol 23/24
- Adolygiadau achosion risg uchel

* Mae CC yn cael ei dalu'n fisol fel ôl-daliad. Os bydd y dyfarniad Credyd Cynhwysol yn cynyddu neu'n gostwng oherwydd newid mewn amgylchiadau, bydd hyn yn arwain at ail-gyfrifo'r hawliad CGTC pan dderbynnir yr hysbysiad o newid gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mewn achosion lle mae Credyd Cynhwysol unigolyn yn newid oherwydd amrywiaeth cyflogau misol gall y Tîm Budd-daliadau dderbyn hyd at 12 hysbysiad o newid yn ystod y flwyddyn.

Rydym yn rhagweld y bydd y galw ar y gwasanaeth yn parhau wrth i bobl barhau i wynebu caledi ariannol oherwydd costau byw cynyddol.

Ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru:

Ar hyn o bryd mae ymgynghoriad technegol ar 2 newid arfaethedig i'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor sydd ar agor tan 6 Mehefin 2024.

- Cynnig 1: symleiddio'r broses ymgeisio.
- Cynnig 2: lleihau cymhlethdod gweinyddol y cynllun drwy newidiadau i ddiwydiad nad ydynt yn ddibynnol.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam, os gwelwch yn dda.

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn unig.

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	AMH
Cydweithio:	AMH
Cynnwys:	AMH
Atal:	AMH
Integreiddio:	AMH

Argymhelliad(au): Nodi cynnwys yr adroddiad.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Sicrhau bod aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol yn cael eu diweddarau ar agweddau diweddaraf Diwygio Lles, Credyd Cynhwysol a Budd-dal Tai yng Ngheredigion

Tudalen 8

Enw Cyswilt: Ann Ireland

Rôl: Rheolwr Corfforaethol Refeniw ac Aseidiadau Ariannol

Dyddiad yr Adroddiad: 18 Ebrill 2024

Acronymau:

CGTC - Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor

TTD - Taliadau Tai Dewisol

AGaPh - Adran Gwaith a Phensiynau

PYaDd - Prydau Ysgol am Ddim

BT - Budd-dal Tai

GHY - Grant Hanfodion Ysgol

CC – Credyd Cynhwysol

LIDU - Llywodraeth y Deyrnas Unedig

LLC- Llywodraeth Cymru

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

<u>Adroddiad i'r:</u>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
<u>Dyddiad y cyfarfod:</u>	16 Mai 2024
<u>Teitl:</u>	Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Argymhell i'r Cabinet ddiweddarau Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion

1. Cefndir

Mae Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion ar hyn o bryd yn caniatáu Grwpiau Cymunedol, Cyngorau Cymuned neu Cymdeithasau Chwaraeon a Chwarae Gwirfoddol dilys i ymgeisio am gyllid wrth y Cyngor ar gyfer prosiectau sydd â bwriad i gynyddu amrywiaeth y cyfleusterau, gweithgareddau a chyfleoedd o fewn Ceredigion. Mae canllawiau'r cynllun presennol ynghlwm fel Atodiad 1.

Yn ystod proses Pennu'r Gyllideb 2024/25, cytunwyd y byddai cyllideb Cynllun Grant Cymunedol Ceredigion yn cael ei leihau. Bydd cyllideb Grantiau Cyfalaf n cael ei leihau i £100k. Mae cyfraniad y Cyngor i Grantiau Refeniw o £26k yn cael ei ddileu, sydd felly'n lleihau'r cyllid sydd ar gael i £30k y flwyddyn sy'n cael ei ariannu'n gyfan gwbl o gyfran Ceredigion o Gronfa'r Degwm (WCF). Mae'n hanfodol bod y cyllid cyfyngedig sydd ar gael bellach yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl mwyaf effeithlon. Mae hyn yn cynnwys ystyried hyd a lled Ceredigion o ba agweddau sy'n bwysig i'w cefnogi.

Yn rhan o'r Gyllideb Grantiau Refeniw, mae grantiau 'Polisi' sy'n cael eu dyfarnu i Bapurau Bro, Eisteddfodau, Sioeau Amaethyddol, Gwyliau ac unigolion sy'n cynrychioli Cymru neu Brydain Fawr.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu newidiadau arfaethedig i alluogi gwariant y Cynllun i gadw o fewn y gyllideb. Mae canllawiau'r cynllun wedi'u diweddarau ynghlwm fel Atodiad 2.

2. Cynghorau Tref a Chymuned

Yn ystod y broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2024/25 bu'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chynghorau Tref a Chymuned i archwilio ffyrdd o drosglwyddo cyfrifoldeb oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion ar gyfer rhai asedau a gwasanaethau.

Yn sicr, cynyddodd rhai Cynghorau Tref a Chymuned y praesept a godir ganddynt i ddarparu ar gyfer gwasanaethau 'lleol' efallai na fydd Cyngor Sir Ceredigion yn medru darparu ar eu cyfer yn y dyfodol. O ystyried y dull hwn, argymhellir na fyddai Cynghorau Tref a Chymuned bellach y gymwys i wneud cais am Grantiau Cymunedol Refeniw neu Gyfalaf gan ei bod yn bosibl iddynt ystyried cynyddu eu praeseptau i gyflawni prosiectau yn eu cymuned. Byddai hyn hefyd yn caniatáu mwy o gyfleoedd i

Tudalen 10

sefydliadau eraill i fod yn llwyddiannus gyda cheisiadau am Grant Cymunedol wrth symud ymlaen.

3. Cronfa'r Degwm

Cynhyrchir yr incwm o Gronfa Eglwysi Cymru sydd ar gael i gefnogi'r Cynllun Grant Cymunedol o fuddsoddiadau sy'n cael eu rheoli ar ran y Cyngor gan Gyngor Sir Caerfyrddin ac sy'n rhan o Gronfa Eglwysi Dyfed. 25% yw cyfran Ceredigion o Gronfa Eglwysi Cymru Dyfed ac ar 31/03/23 roedd hyn yn gyfanswm o tua £1.25m. Mae hyn yn cynnwys £836k a ddelir mewn cronfeydd buddsoddi, £238k mewn perthynas â chyfran o Faenor Scolton, Sir Benfro a balansau a ddelir mewn arian parod (gan Geredigion a Sir Gaerfyrddin).

Ers 31 Mawrth 2024, mae gan y Cyngor falansau arian parod o £137k sy'n cynnwys £20k o incwm buddsoddi a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin yn ystod 2023/24 ynghyd â £7k arall o log wedi'i ddyrannu gan y Cyngor. Bydd cynnal y cyfalaf buddsoddi a chadw balans arian parod yn sicrhau bod arian ar gael yn barhaus i gefnogi cynlluniau, ond heb erydu'r cyfalaf craidd sy'n darparu'r enillion blynyddol. Fel arfer, mae ffurflenni blynyddol yn amrywio o £20k i £40k, er y byddant yn amrywio yn dibynnu ar gyfraddau llog a ffurflenni treth. Yn gyffredinol, tybir bod swm darbodus o £30k y flwyddyn.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gymorth grant yn bennaf at y dibenion canlynol:

- Cyfraniadau tuag at adfer a chynnal unrhyw fan addoli cyhoeddus
- Datblygiad Diwylliannol ac Addysgiadol
- Datblygiad gweithgareddau cymdeithasol a hamdden

4. Grantiau Cyfalaf

4.1 Prosiectau Cymwys

Mae'r meini prawf sy'n ymwneud â phrosiectau cymwys a'r mathau cymwys o wariant yn aros yn ddigyfnewid. Byddai ceisiadau gan Addoldai yn cael eu hariannu'n llwyr o Gronfa Eglwys Cymru - y swm sydd ar gael i'w ddyfarnu byddai balans y gyllideb sydd ar gael gan Gronfa Eglwys Cymru ar ôl caniatáu ar gyfer ariannu Grantiau Polisi.

4.2 Uchafswm Grant

Os na chaiff uchafswm y grant sydd ar gael ei leihau yna bydd modd ariannu llai o brosiectau o'r gyllideb sydd wedi'i lleihau. Gallai'r uchafswm grant a ddyfernir ar gyfer prosiect gael ei ostwng o **£25,000** i **£10,000**. Mae'r tabl isod yn dangos y bydd uchafswm grant o £10,000 yn caniatáu i'r cynllun gefnogi lleiafswm o 10 prosiect o fewn y gyllideb lai o £100k.

Tabl 1: Terfynau Grant Cyfalaf Arfaethedig yn erbyn terfynau Grant Cyfalaf

	2023/24	2024/25
	£	£
Cyllideb Flynyddol	200,000	100,000
Uchafswm lefel y grant	25,000	10,000
Isafswm nifer y prosiectau a gefnogir	8	10

Tudalen 11

Mae'r tabl isod yn dangos proffil Grantiau Cyfalaf a gymeradwywyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Tabl 2: Nifer y dyfarniadau Grant Cyfalaf yn ôl gwerth

	2022/23	2023/24
£0 - £4,999	6	4
£5,000 - £9,999	3	2
£10,000 - £14,999	1	4
£15,000 - £19,999	0	2
£20,000 - £25,000	2	3
Cyfanswm	12	15
Gwerth Cyfartalog Grant	£8,500	£11,900

4.3 Rheoli'r Gyllideb

Er mwyn helpu ymgeiswyr i wario eu cyllid ym mlwyddyn y dyfarniad, cynigir y bydd un Panel Asesu Grant Cyfalaf yn ystod Gwanwyn pob blwyddyn ariannol, yn dilyn galwad agored am geisiadau yn ystod cyfnod o fis Ionawr i fis Mawrth ac os yw'r gyllideb ar gael, gellid cynnal ail Panel Asesu yn ystod yr Haf os yw'r panel dyfarnu'n cytuno. Bydd hyn yn caniatáu cyfnod o chwe mis o leiaf o gymeradwyaeth grant i gwblhau prosiectau cymeradwy.

Ar hyn o bryd, os nad yw Grantiau Cyfalaf yn cael eu hawlio'n llawn ym mlwyddyn y dyfarniad, yna gall ymgeiswyr wneud cais i gynnal unrhyw falansau heb eu hawlio ymlaen. Bwriedir parhau â'r broses parhau tra'n sicrhau nad yw prosiectau sy'n cael eu gohirio yn cael effaith andwyol ar ymgeiswyr grant newydd.

5. Grantiau Polisi

Dyfernir grantiau polisi ar gyfer digwyddiadau penodol sy'n bodloni dibenion Cronfa Eglwysi Cymru. Mae proses ymgeisio symlach ac nid oes angen cymeradwyaeth panel ar y grantiau.

Yn ystod 2023/24 dyfarnwyd £15,800 ar gyfer Grantiau Polisi a fyddai'n gyfran sylweddol o'r gyllideb o £30,000 sydd ar gael ar gyfer 2024/25. Mae lefelau'r Grant Polisi sydd ar waith ar hyn o bryd wedi'u nodi ar y bwrdd isod ynghyd â newidiadau arfaethedig:

Tabl 3: Grantiau Polisi Presennol yn erbyn Grant Arfaethedig

	<u>Y Polisi Grant presennol</u>	<u>Y Polisi Grant arfaethedig</u>
<ul style="list-style-type: none">Gŵyl Fawr AberteifiEisteddfod RTJ Pantyfedwen, Llanbedr Pont SteffanEisteddfod Teulu James Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid	£3,000	£2,000
<ul style="list-style-type: none">Papurau Bro	£500	£500 blynyddol ar gyfer y 5 mlynedd gyntaf o

Tudalen 12

		gyhoeddiad / £250 blynyddol wedi hynny
<ul style="list-style-type: none"> Eisteddfodau lleol 	£200	£250
<ul style="list-style-type: none"> Sioeau amaethyddol a/neu arddwriaethol lleol 	£200	£250
<ul style="list-style-type: none"> Sioeau Aberystwyth, Aberteifi, Llambled a Llandysul, a Gŵyl Merlod a Chobiau Cymreig Aberaeron 	£500	£500
<ul style="list-style-type: none"> Gŵyl Bwyd Môr Bae Ceredigion, Gŵyl Fwyd Llambled a Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi 	£500	£500
<ul style="list-style-type: none"> Unigolion - grant untro, y tro cyntaf maent yn cynrychioli Cymru neu Brydain Fawr mewn gweithgaredd - £200 	£200	Ddim yn gymwys o dan WCF. Dim gwobrau o dan y categori hwn

Mae'r tabl isod yn dangos grantiau Polisi 2023/24 a ddyfarnwyd o'i gymharu â'r hyn y byddent ar y terfynau grant diwygiedig.

Tabl 4: Gwerth Grantiau Polisi 2023/24 a ddyfarnwyd o'i gymharu â gwerth os ydych yn defnyddio gwerthoedd grant diwygiedig.

	<u>2023/24</u> <u>Dyfarnu Gwirioneddol</u>		<u>2023/24</u> <u>@ grant</u> <u>diwygiedig</u>
	Nifer	Cyfanswm Gwerth £	Cyfanswm Gwerth £
<ul style="list-style-type: none"> Gŵyl Fawr Aberteifi Eisteddfod RTJ Pantyfedwen, Llanbedr Pont Steffan Eisteddfod Teulu James Pantyfedwen, Ponrhydfendigaid 	3	£9,000	£6,000
<ul style="list-style-type: none"> Papurau Bro 	5	£2,500	£1,250
<ul style="list-style-type: none"> Eisteddfodau lleol 	11	£2,200	£2,750
<ul style="list-style-type: none"> Sioeau amaethyddol a/neu arddwriaethol lleol 	5	£1,000	£1,250
<ul style="list-style-type: none"> Sioeau Aberystwyth, Aberteifi, Llambled a Llandysul, a Gŵyl Merlod a Chobiau Cymreig Aberaeron 	1	£500	£500
<ul style="list-style-type: none"> Gŵyl Bwyd Môr Bae Ceredigion, Gŵyl Fwyd Llambled a Gŵyl Afon a Bwyd Aberteifi 	0	£0	£0
<ul style="list-style-type: none"> Unigolion - grant untro, y tro cyntaf maent yn cynrychioli Cymru neu Brydain Fawr mewn gweithgaredd - £200 	3	£600	£0
CYFANSWM	28	£15,800	£11,750

Fel y gwelwch, yn ystod 2023/24 nad oedd unrhyw geisiadau wedi dod i law o'r sioeau amaethyddol mwy (mae Sioe Llandysul wedi gwneud cais yn ddiweddar am gyllid ar gyfer sioe 2024). Dyma'r sefyllfa ers sawl blwyddyn. Tybir bod hyn yn gysylltiedig â'r gofyniad a gyflwynwyd nifer o flynyddoedd yn ôl i sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r digwyddiadau yn cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog gan gynnwys amserlenni sioeau. Nid yw rhai o'r digwyddiadau a restrir wedi cael eu cynnal ers nifer o flynyddoedd ond efallai eu cynhelir mewn blynyddoedd i ddod.

6. Grantiau Refeniw

Nid oes cyllideb refeniw y Cyngor ar gael i ariannu grantiau refeniw mwyach. Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda sefydliadau trydydd parti y mae'r Cyngor yn eu comisiynu i ddarparu rhai gwasanaethau ar ei ran. Dylai'r gwasanaethau hyn gael eu rheoli drwy drefniadau cytundebol gan Wasanaeth perthnasol y Cyngor. Felly, ni fwriedir ariannu grantiau refeniw bellach drwy'r Cynllun Grant Cymunedol.

Mae yna hefyd amrywiaeth o ffynonellau cyllid ar gael y gall y Cyngor gyfarwyddo ymgeiswyr i gynorthwyo gyda phrosiectau a chyllid. Mae sefydliadau fel CAVO neu wefan Cyllid Cymru ([Hafan \(funding.cymru\)](http://Hafan(funding.cymru))) yn fan cychwyn yn ogystal â chyfleoedd drwy Cynnal y Cardi a manylion penodol y gronfa e.e. Trawsnewid Trefi, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru, Gwobrau'r Loteri Genedlaethol i Bawb, Loteri Cod Post y Bobl.

7. Y Broses Ymgeisio

Bydd y broses ymgeisio yn cael ei diweddarau i ddefnyddio ffurflen gais ar-lein lle bynnag y bo modd. Bydd cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i ymgeiswyr yn ôl yr angen.

8. Casgliad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu newidiadau arfaethedig i alluogi Cynllun Grant Cymunedol wedi'i ddiweddarau i gadw o fewn y gyllideb sydd ar gael. Y bwriad yw cyflwyno'r Cynllun Grant Cymunedol wedi'i ddiweddarau ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor hwn yn y Cabinet ar 04/06/24. Yn amodol ar wneud penderfyniadau ffurfiol, byddai'r llinell amser hon yn caniatáu i'r Cynllun Grant Cymunedol wedi'i ddiweddarau ddod i rym o 01/07/24.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Ydy'r Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau?

Ydy – wedi'i atodi fel Atodiad 3.

Argymhelliad/Argymhellion:

Ystyried y Cynllun Grant Cymunedol arfaethedig wedi'i ddiweddarau sydd ynghlwm fel Atodiad 2, a gwneud argymhellion i'r Cabinet fel y bo'n briodol. Mae'r meysydd y gallai'r Pwyllgor fod eisiau lleisio eu barn arnynt yn cynnwys:

- a) Eithrio Cynghorau Tref a Chymuned o'r Cynllun wedi'i ddiweddarau.
- b) Ariannu Ceisiadau wrth Addoldai o Gronfa Eglwys Cymru yn unig.
- c) Lleihau'r lefel uchaf o ddyfarniadau cyfalaf i £10,000.
- d) Diwygio'r ystod o gymorth grantiau Polisi yn unol â Thabl 3.
- e) I beidio â chynnig unrhyw grantiau refeniw eraill mwyach.
- f) Symleiddio ffenestr a phroses ymgeisio grant.
- g) Unrhyw faterion eraill y mae'r Pwyllgor yn eu hystyried yn briodol.

Tudalen 14

Rhesymau dros y penderfyniad:

Er mwyn diweddarau'r Cynllun Grant Cymunedol i sicrhau bod yr arbedion cyfalaf a chyllideb refeniw a gymeradwywyd fel rhan o'r cyllidebau ar gyfer 2024/25 yn cael eu cyflawni yn ymarferol.

Atodiadau:

Atodiad 1: Y Cynllun Grant Cymunedol Presennol

Atodiad 2: Diweddariad o'r Cynllun Grant Cymunedol

Atodiad 3: Aseiad Effaith Integredig

Enw Cyswllt:

Justin Davies – Rheolwr Corfforaethol: Cyllid Craidd

Duncan Hall – Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Dyddiad yr Adroddiad:

19 Ebrill 2024

Tudalen 15
CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL



**CYNLLUN GRANTIAU CYMUNEDOL
 CEREDIGION
 NODIADAU CYFARWYDDYD**

**CEREDIGION COMMUNITY GRANT
 SCHEME
 GUIDANCE NOTES**

**Croesawir ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg
 Applications are welcomed in Welsh or English**

<p>Ni fydd y Cyngor dan unrhyw amgylchiadau yn fodlon ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi eu dechrau/eu cwblhau nac ar gyfer digwyddiadau sydd eisoes wedi eu cynnal.</p>	<p>The Council will not under any circumstances consider applications for projects which have already commenced/been completed, or for events which have already taken place.</p>
---	---

Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
 Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3UE

Ceredigion County Council, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr,
 Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3UE

Ffôn/Tel: 01970 633136
 ebost: grantiaucyllid@ceredigion.gov.uk
 email: financegrants@ceredigion.gov.uk

CYNLLUN GRANTIAU CYMUNEDOL CEREDIGION
CEREDIGION COMMUNITY GRANT SCHEME

NODIADAU CYFARWYDDYD

1. Pwrpas y Cynllun hwn yw cynyddu ystod y cyfleusterau, y gweithgareddau a'r cyfleoedd yng Ngheredigion.
2. Bydd y grantiau ar gael i Grwpiau Cymunedol, Cynghorau Cymuned neu Gymdeithasau Hamdden a Chwaraeon Gwirfoddol dilys sydd am wella a chynyddu ystod y cyfleusterau, y gweithgareddau a'r cyfleoedd yng Ngheredigion.
3. Bydd cymdeithasau gwirfoddol dielw, sydd â chyfansoddiad priodol yn gymwys i wneud cais am gymorth. Dylent fod wedi eu lleoli yng Ngheredigion neu'n gyfrifol am brosiectau sydd wedi eu lleoli yn ardal Ceredigion. Fodd bynnag, ystyrir ceisiadau gan gymdeithasau o'r tu allan i ffiniau'r Sir pe gellid dangos y byddent yn fanteisiol i drigolion Ceredigion.
4. (a) Dylai ymgeiswyr weithredu'n ddwyieithog wrth ddelio gyda'r cyhoedd.
(b) Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn trin pob rhan o'r gymuned yn gyfartal.
5. (a) Ni dderbynnir ceisiadau gan gymdeithasau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau gwleidyddol.
(b) Ni dderbynnir ceisiadau gan gymdeithasau sy'n arfer polisi o wahaniaethu yn erbyn unrhyw sector o'r gymuned.
6. Ni ellir defnyddio'r grantiau at unrhyw ddiben ac eithrio'r hyn a nodir ar y ffurflen gais.
7. Ym mhob cyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r cynllun, dylid cyfeirio at y ffaith fod grant wedi ei roddi gan y Cyngor.

GUIDANCE NOTES

1. The purpose of the Scheme is to increase the range of facilities, activities and opportunities within Ceredigion.
2. The grants are available to Community Groups, Community Councils or bonafide Voluntary Sports and Play Associations who wish to improve and increase the range of facilities, activities and opportunities within Ceredigion.
3. Voluntary, non-profit making organisations, which are properly constituted will be eligible to apply for assistance. They should be based in, or be responsible for projects based in the Ceredigion area. However applications from organisations outside the County boundary will be considered where it can be seen that there would be benefit to the inhabitants of Ceredigion.
4. (a) Applicants should operate bilingually in dealing with the public.
(b) Applicants must ensure that all sections of the community are treated equally.
5. (a) Applications will not be accepted from organisations associated with political activity.
(b) Applications will not be accepted from organisations who operate a policy of discrimination against any sector of the community.
6. Grants cannot be used for any purpose other than that stated on the application form.
7. In all publicity associated with the scheme, reference should be made to the fact that a grant has been awarded by the Council.

Tudalen 17

8. Y mudiadau eu hunain a fydd yn gyfrifol am gael cymeradwyaeth dan y Rheoliadau Adeiladu, caniatâd cynllunio ac unrhyw drwyddedau eraill neu ganiatâd arall sy'n angenrheidiol ar gyfer eu prosiectau.
8. Organisations are responsible for obtaining Building Regulations approval, planning permission, and any other licences and permissions necessary for their project.
9. Ni fydd y Cyngor dan unrhyw amgylchiadau yn fodlon ystyried ceisiadau ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi eu dechrau/eu cwblhau nac ar gyfer digwyddiadau sydd eisoes wedi eu cynnal.
9. The Council will not under any circumstances consider applications for projects which have already commenced/been completed, or for events which have already taken place.
10. Os ceir arian o ffynonellau na ddatgelwyd yn flaenorol yna fe ddylid rhoi gwybod i'r Cyngor ar unwaith a hynny'n ysgrifenedig. Bydd y Cyngor yn cadw'r hawl i addasu'r grant i gyfateb i'r newid.
10. Should any finance be forthcoming from any sources not previously declared, the Council must be informed immediately in writing and reserves the right to modify the grant proportionately.
11. Dylai'r ymgeisydd fedru dangos fod cefnogaeth helaeth i'r prosiect yn y gymuned e.e. llythyr oddi wrth y Cyngor Cymuned.
11. The applicant should be able to demonstrate widespread community support e.g. letter from the Community Council.
12. Nod y Cyngor yw sicrhau y cyflwynir gwasanaethau o'r ansawdd orau yn gyfartal, gan barchu hawliau aelodau o'r cyhoedd i ddelio â'r Cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg bob amser.
12. The aim of the Council is to ensure the delivery of first class services provided on the basis of equality with the rights of members of the public to deal with the Council in Welsh or English being respected at all times.
- Mae'n rhaid i geisiadau am grantiau gyflawni un neu fwy o'r meini prawf canlynol:-
- Grant applications must meet one or more of the following criteria:-
- Gynnal a gwella'r safonau addysgol uchel a gyflawnir eisoes yng Ngheredigion.
 - Darparu cyfleoedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac oedolion yn eu cymunedau.
 - Datblygu gweithgareddau i blant a phobl ifanc.
 - Darparu cyfleoedd i fanteisio ar ddysgu gydol oes.
 - Maintaining and improving the high educational standards already achieved in Ceredigion.
 - Provide first class learning opportunities for children, young people and adults in their communities.
 - Develop activities for children and young people.
 - Provide access to lifelong learning.
 - Darparu ffyrdd gwell a mwy diogel er mwyn i bobl fedru manteisio ar wasanaethau, swyddi a thwristiaeth.
 - Gwella diogelwch ar y ffyrdd.
 - Gwella'r cyfleoedd manteisio mewn ardaloedd gwledig.
 - Providing better and safer roads to access services, employment and tourism.
 - Improve road safety.
 - Improve access in rural areas.

Tudalen 18

- Sicrhau bod pobl yn byw mewn tai sy'n fforddiadwy ac o ansawdd dda neu eu bod yn gallu manteisio ar dai o'r fath, a bod ganddynt ffordd o fyw iach mewn amgylchedd o ansawdd uchel.
 - Gwella safonau tai.
 - Ymateb i anghenion tai y digartref.
 - Datblygu amgylchedd o ansawdd uchel.
- Hybu datblygu ac adfywio economaidd er lles y gymuned leol.
 - Creu cyfleoedd gwaith.
 - Cynorthwyo busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes.
 - Sicrhau arian cyhoeddus ar gyfer prosiectau cymunedol.
 - Hybu Twristiaeth yng Ngheredigion.
- Hybu lles pobl sydd ag anghenion Gofal Cymdeithasol.
 - Sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth am ein gwasanaethau yn hawdd.
 - Caiff anghenion unigolion eu hasesu a'u trin yn llawn.
 - Caiff pobl help i fyw bywyd annibynnol.
 - Rhoddir cymorth i oedolion a phlant sy'n agored i niwed a chânt eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso a'u trin yn wael.
 - Rhoddir cymorth da i ofalwyr.
 - Bydd ystod briodol o wasanaethau ar gael i fodloni anghenion pobl.
- Sicrhau y caiff gwasanaethau a chynlluniau trawsbynciol eu rheoli a'u darparu'n effeithiol er mwyn sicrhau y rheolir perfformiad yn effeithiol ar draws yr Awdurdod.
 - Gweithgareddau datblygu i Blant a Phobl Ifanc.
 - Mynediad cyfartal gan sicrhau y gellir cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau yn hawdd.
 - Sicrhau bod oedolion a phlant sy'n agored i niwed yn cael eu cynorthwyo a'u bod yn cryfhau cymunedau.
 - Cymdeithas ddiogel sy'n ceisio
- Ensuring that people live in or have access to good quality and affordable housing and live a healthy life style in a high quality environment.
 - Improve housing standards.
 - Respond to the housing needs of the homeless.
 - Develop a high quality environment.
- Promoting economic development and regeneration for the benefit of the local community.
 - Creating employment opportunities.
 - Supporting new and existing businesses.
 - Securing public funding for community projects.
 - Promoting Tourism in Ceredigion.
- Promoting the well being of people with Social Care needs.
 - Information about our services can be accessed easily.
 - Individual's needs are fully assessed and addressed.
 - People are helped to live independently.
 - Vulnerable adults and children are supported and protected from abuse, neglect and poor treatment.
 - Carers are well supported.
 - An appropriate range of services are available to meet people's needs.
- Ensuring that services and initiatives that are cross cutting are effectively managed and delivered to ensure performance management is effective across the Authority.
 - Development activities for Children and Young People.
 - Equality of access, including ensuring information and services can be easily accessed.
 - Ensuring vulnerable adults and children are supported and strengthening communities.
 - A safe society, striving to reduce

Ystyrir ceisiadau hefyd os byddant yn cyfrannu
at unrhyw un o'r canlynol

Applications will also be considered if they
contribute to any of the following

- (a) Hybu diddordebau a gweithgareddau
diwylliannol
- (b) Gwella gweithgareddau chwaraeon neu
hamdden

- (a) Promotion of cultural interests and
activities
- (b) Enhance sports and recreational
activities

13. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safonau'r
Gymraeg, er mwyn sicrhau caiff y Gymraeg
a'r Saesneg eu trin yn gyfartal; ac y gall
dinasyddion ddefnyddio'r Gymraeg ymhob
agwedd o'u bywydau os ydynt yn dewis
hynny.

13. The Council has adopted the Welsh
Language Standards to ensure that the
Welsh and English languages are treated
on the basis of equality, and that citizens
should be able to use the Welsh
language in all aspects of their lives if
they wish to do so.

Er mwyn cefnogi'r nod hwn, dylai ymgeiswyr
llwyddiannus am grantiau:-

In order to support this aim, successful grant
applicants should:-

- Gynhyrchu'r holl ddeunydd ysgrifenedig
ac electronig sy'n gysylltiedig â'r cais yn
ddwyieithog – er enghraifft arwyddion,
taflenni, posteri, cyhoeddiadau,
hysbysebion, gwefannau ac unrhyw
slogan.
- Sicrhau y bydd digwyddiadau neu
weithgareddau cyhoeddus sy'n
gysylltiedig â'r cais yn peidio â thrin y
Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. er
enghraifft, cyhoeddiadau o'r
uchelseinydd, Cadeirydd i sicrhau bod y
rheiny sy'n bresennol yn y digwyddiad
yn teimlo'n gyfforddus i gyfrannu yn eu
dewis iaith.
- Cynorthwyo i ddarparu cyfleoedd i
beronau ddefnyddio'r Gymraeg

- Produce all written and electronic
material in connection with the
application bilingually – e.g. signs,
leaflets, posters, publications,
advertisements, web pages and any
slogans
- Ensure public events or activities held
in connection with the application treat
the Welsh language no less favourably
than the English language e.g.
announcements from loudspeakers,
Chairperson to ensure that those
attending an event feel comfortable to
be able to contribute in their preferred
language
- Assist to provide opportunities for
persons to use the Welsh Language

Mae darparwyr sydd wedi derbyn grant o dan y
Cytundeb hwn yn cael eu hannog i gael yn ei le
ac yn gweithredu Cynllun Hybu'r Gymraeg yn
unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
Cynllun i'ch galluogi i gynllunio eich defnydd o'r
Gymraeg gyda phwyslais ar geisio cynyddu'r
defnydd hwnnw dros amser. Gellid cael
arweiniad a thempled ar wefan Comisiynydd y
Gymraeg.

www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu

Providers who have been awarded a
grant under this Agreement are
encouraged to have in place and
operate a Progress Plan in line with the
Welsh Language (Wales) Measure
2011. A framework to allow you to plan
your use of the Welsh language with an
emphasis on increasing that use over
time. Please find guidance and template
on the Welsh Language Commissioners
website:

www.comisiynyddygyymraeg.cymru/hybu

Tudalen 20

- Am ragor o wybodaeth neu arweiniad ar y materion hyn a'r defnydd o'r Gymraeg, efallai buasech yn dymuno cysylltu â'r canlynol:-
 - (a) **Comisiynydd y Gymraeg**

Mae gwefan Comisiynydd y Gymraeg ar gael i ddarparu cymorth a chynngor i fudiadau sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg, gan ddefnyddio Cynllun Hybu'r Gymraeg.
www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu
 - (b) **Menter Iaith Cered**

Mudiad yn y gymuned sy'n gweithio gydag unigolion, mudiadau, a busnesau lleol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yng Ngheredigion
Rhif ffôn: 01545 572350
E-bost: cered@ceredigion.gov.uk
Gwefan: www.cered.org
 - (c) **Estyn Llaw**

Mudiad sy'n cynnig cymorth ac arweiniad i grwpiau gwirfoddol a Cymunedol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, ac annog gwirfoddoli ymysg siaradwyr Cymraeg.
Rhif Ffôn: 01239 711668
E-bost: siwan.tomos@iaith.eu
Gwefan: <http://www.estynllaw.org/en/index.php>
 - (d) **Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru**

Gallwch ddefnyddio'r chwilotwr i ganfod cyfieithydd cydnabyddedig yn eich ardal.
Gwefan: <http://www.cyfieithwycymru.org.uk/>
 - (e) **Llinell Gyswllt Y Gymraeg**

Rhif Ffôn: 01248725730 neu 08456076070
e-bost: huw@mentermon.com
 - (f) **Cymraeg I Oedolion – Canolbarth Cymru**

Darparwyr cyrsiau Cymraeg
Gwefan: <http://www.learnwelshinmidwales.org/>
- Further assistance and support for working bilingually is available to organisations from the following sources:
 - (a) **Welsh Language Commissioner**

The Welsh Language Commissioners website is available to provide support and advice to organizations wishing to make use of the Welsh language, using Cynllun Hybu'r Gymraeg - the Welsh Language Progress Plan.
www.comisiynyddygybraeg.cymru/hybu
 - (b) **Menter Iaith Cered**

A community-based organisation which works with individuals, organisations, and local business to promote the use of Welsh in Ceredigion.
Telephone: 01545 572350
E-mail: cered@ceredigion.gov.uk
Web site: www.cered.org
 - (c) **Estyn Llaw**

An organisation that offers support and guidance to voluntary and community groups to increase their use of Welsh, and to encourage volunteering amongst Welsh speakers.
Telephone: 01239 711668
E-mail: siwan.tomos@iaith.eu
Web site: <http://www.estynllaw.org/en/index.php>
 - (d) **The Association of Welsh Translators & Interpreters**

You may use their search engine to find recognised translators in your area.
Web Site: <http://www.cyfieithwycymru.org.uk/>
 - (e) **Link Line to Welsh**

Telephone: 01248 725730 or 08456076070
e-mail: huw@mentermon.com
 - (f) **Welsh for Adults Mid Wales Centre**

Providers of Welsh language courses
Web Site: <http://www.learnwelshinmidwales.org/>

PROSIECTAU CYFALAF

CAPITAL PROJECTS

14. Mae'r grantiau ar gael ar gyfer pethau megis:

- prynu a datblygu tir;
- prynu adeiladau;
- gwella'r cyfleusterau presennol;
- prynu cyfarpar

15. Dylid llanw ffurflen gais ac fe ddylid rhoi pob gwybodaeth y gofynnir amdani ar y ffurflen, fel a ganlyn:

- manylion a chynlluniau'r prosiect;
- copi o'r cytundeb prydlesu os yw'n briodol;
- copïau o dri amcangyfrif ar gyfer y prosiect;
- copïau o ddatganiadau banc (neu arall) diweddar yn nodi balansau/cronfeydd y gymdeithas, y rhai rhydd a'r rhai sydd wedi eu clustnodi;
- copi o'r cyfrifon ariannol blynyddol diweddaraf;
- copi o gyfansoddiad y gymdeithas.

Os na roddir gwybodaeth lawn yna fe all hynny achosi oedi wrth i'r Cyngor ystyried y cais.

16. Dylid gofyn i ymgeiswyr fel arfer gyllido o leiaf 10% o gost y prosiect o'u hadnoddau eu hunain, heb gynnwys y cymorth a geir gan unrhyw gyrff cyhoeddus neu gyrff nad ydynt yn gyhoeddus, heb law am unrhyw gymorth a geir gan y Gronfa Gymunedol (Loteri) y gellir ei gyfrif yn rhan o adnoddau'r ymgeisydd ei hun..

17. Ystyrir pob cais ar sail teilyngdod, ond bydd y grant naill ai'n 50% o gost y prosiect neu'r swm sy'n ofynnol i ariannu'r diffyg yn y prosiect, pa un bynnag yw'r swm isaf, hyd at uchafswm o £25,000.

14. Grants are available towards such things as:

- the purchase and development of land;
- the purchase of buildings;
- the upgrading of existing facilities;
- the purchase of equipment

15. An application form must be completed and all information requested on the form must be supplied, as follows:

- details and plans of the project;
- a copy of the lease agreement if appropriate;
- copies of three estimates for the project;
- copies of recent bank (or other) statements showing the organisation's free and earmarked balances/reserves;
- a copy of the latest annual financial accounts;
- a copy of the organisation's constitution.

Failure to provide full information may result in a delay in the Council considering the application.

16. Applicants should normally be required to fund at least 10% of the project cost from their own resources, excluding assistance received from any public or non-public bodies, apart from any assistance received from the Community Fund (Lottery) which can be allowed to count as part of their own resources.

17. Each application will be considered on its merits, but the maximum grant will be the lower of 50% of the project cost or the amount required to fund the project deficit, subject to a maximum of £25,000.

Tudalen 22

18. Os bydd cyfanswm y gwariant yn llai na'r amcangyfrif ar gyfer cost gyfan y prosiect yna fe ellir lleihau grant y Cyngor i gyfateb i hynny.
18. If the total expenditure is less than the estimated total project cost, the Council's grant may be reduced proportionately.
19. Ni fydd y Cyngor yn cynorthwyo'r un prosiect ddwy waith. Fodd bynnag, gallai camau unigol, a nodir yn eglur mewn prosiect, fod yn gymwys i dderbyn cymorth.
19. The Council will not assist the same project twice. However, separate phases, clearly identified in a project may qualify for assistance.
20. Ni fydd gwerth amser gwirfoddolwyr (fel cyfraniad ymarferol) yn dderbyniol fel costau cyfalaf cymwys.
20. The value of volunteer time (in kind contribution) will not be allowed as an eligible capital cost.
21. Nid yw'r ffaith fod grant wedi ei gymeradwyo ar gyfer gwaith cyfalaf i wneud gwelliannau'n awgrymu y rhoddir rhagor o gymorth ariannol at y costau cynnal at y dyfodol.
21. Approval of a grant towards capital improvement works does not imply that any further financial support will be given towards future running costs.
A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

AMH

A ydych chi'n meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Beichiogrwydd	Dim/Fawr Ddim
Mamolaeth	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

Ni ragwelir unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Canllawiau presennol ar gyfer y Grant Gymunedol a phrofiad o geisiadau blaenorol am grantiau

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?

AMH

Tudalen 47

A ydych yn meddwl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl oherwydd eu tarddiad ethnig? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Asiaidd / Asiaidd Prydeinig	Dim/Fawr Ddim
Du / Affricanaidd / Caribiaidd / Du Prydeinig	Dim/Fawr Ddim
Grwpiau Ethnig Cymysg/ Aml-ethnig	Dim/Fawr Ddim
Gwyn	Dim/Fawr Ddim
Grwpiau ethnig eraill	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

Unwaith eto, ni ragwelir unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol i unrhyw grŵp ar sail tarddiad ethnig.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Canllawiau presennol ar gyfer y Grant Gymunedol a phrofiad o geisiadau blaenorol am grantiau

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

AMH

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl â gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Bwdhaidd	Dim/Fawr Ddim
Cristion	Dim/Fawr Ddim
Hindŵaidd	Dim/Fawr Ddim
Dyneiddiwr	Dim/Fawr Ddim
Iddewig	Dim/Fawr Ddim
Mwslim	Dim/Fawr Ddim

Tudalen 48

Sikh	Dim/Fawr Ddim
Pobl heb gred	Dim/Fawr Ddim
Eraill	Dim/Fawr Ddim
Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol	
Ni ragwelir unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol i unrhyw grŵp ar sail gwahanol grefyddau, credoau neu ddim cred	
Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	
Canllawiau presennol ar gyfer y Grant Gymunedol a phrofiad o geisiadau blaenorol am grantiau	
Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	
A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?	
AMH	

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddynion neu fenywod? (Cliciwch yma am wybodaeth)	
Dynion	Dim/Fawr Ddim
Menywod	Dim/Fawr Ddim
Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol	
Ni ragwelir unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol i unrhyw grŵp ar sail rhyw.	
Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?	
Canllawiau presennol ar gyfer y Grant Gymunedol a phrofiad o geisiadau blaenorol am grantiau	
Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?	
A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?	
AMH	

A ydych yn credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl o Gymuned y Lluoedd Arfog? (Cliciwch [yma](#) am wybodaeth)

Aelodau o'r Lluoedd Arfog	Dim/Fawr Ddim
Cyn-filwyr	Dim/Fawr Ddim
Gwŷr/gwraedd	Dim/Fawr Ddim
Plant	Dim/Fawr Ddim

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

Ni ragwelir unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol ar gyfer y grŵp hwn.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Canllawiau presennol ar gyfer y Grant Gymunedol a phrofiad o geisiadau blaenorol am grantiau

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

AMH

Dyletswydd economaidd-gymdeithasol

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o'i gymharu ag eraill yng Nghymru, gydag ychydig neu ddim cyfoeth cronedig, sy'n ei gwneud hi'n anoddach cael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol.

Mae cefndir teuluol neu lle mae person yn cael ei eni yn dal i effeithio ar ei fywyd. Er enghraifft, mae plentyn o deulu cyfoethog yn aml yn gwneud yn well yn yr ysgol na phlentyn o deulu tlawd, hyd yn oed os yw'r plentyn tlotach yn fwy naturiol academaidd. Gelwir hyn weithiau yn anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol.

Ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol?

Negyddol

Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol

Mae'n anodd rhagweld maint yr effaith negyddol ar bobl sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae'n bosibl y gall elusennau neu sefydliadau wneud cais am gyllid ar gyfer prosiect sydd wedi'i anelu at y grŵp hwn nad yw'n cael ei ariannu o bosibl oherwydd cronfeydd cyfyngedig ond o brofiad o grantiau'r gorffennol dim ond digwyddiadau ynysig sy'n yn debygol o fodoli felly bydd yr effaith gyffredinol yn fach iawn, ond mae'n bosibl.

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r farn hon?

Canllawiau presennol ar gyfer y Grant Gymunedol a phrofiad o geisiadau blaenorol am grantiau

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

A oes cyfle i ddefnyddio'r cynnig hwn i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal neu annog cysylltiadau da rhwng pobl yn y grŵp hwn a gweddill y boblogaeth?

Mae'n debygol mai ychydig iawn yw'r effaith. Fodd bynnag, mae Cronfa Eglwys Cymru yn nodi'n benodol y dylai cyllid fod ar gael i unigolion neu brosiectau sy'n ceisio lleihau effeithiau tlodi. Yn amodol ar Graffu a chymeradwyaeth y Cabinet, bydd y diwygiadau a ddisgrifiwyd yn flaenorol i'r cynllun Grant Gymunedol yn nodi y bydd cyllid ar gael i ymgeiswyr ac yn cael ei farnu yn ôl eu teilyngdod eu hunain.

Gall sefydliadau fel CAVO neu wefan Cyllid Cymru (<https://funding.cymru/>) gynorthwyo i ddod o hyd i ddewisiadau eraill posibl ar gyfer cyllid.

Er enghraifft, dau gynllun grant sydd ar gael sydd â nodau tebyg â chynllun grant y Cyngor yw;

- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu grantiau bach o dan £25k a grantiau mwy hyd at £300k. Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'n darparu grantiau o £3k i £10k.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru o Gymunedau Cydlynus

Cymdeithas gyda chymunedau deniadol, hyfyw, diogel, sydd â chysylltiadau da

Cliciwch [yma](#) i weld gwybodaeth am gymunedau cydlynus.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. [AWGRYM](#)

Efallai y bydd rhai effeithiau negyddol cyfyngedig i gydlyniant cymunedol, boddhad â'r ardal leol, gwirfoddoli ac unigrwydd. Mae llawer o geisiadau grant yn y gorffennol wedi bod yn gysylltiedig â phrosiectau sy'n ymwneud â chefnogi clybiau chwaraeon, sioeau lleol, a grwpiau cymunedol amrywiol.

Bydd yr effeithiau negyddol yn gyfyngedig oherwydd nad yw'r cyllid yn cael ei dynnu'n ôl o'r sefydliadau hyn sut gymaint, ond o brosiectau/digwyddiadau penodol posibl yn y dyfodol lle na allant ddod o hyd i gyllid arall a fyddai wedi gallu cael ei ddarparu yn y gorffennol drwy'r Grant Gymunedol.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Profiad o geisiadau blaenorol am grantiau

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?

Mae'r Cynllun Grant Cymunedol yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer cyllideb lai. Yn amodol ar gytundeb Craffu / Cabinet bydd y cynllun yn cael ei ddiwygio mewn ffordd sy'n ceisio cefnogi cymaint o brosiectau â phosibl ond gyda uchafswm cyfradd gyfraniad/ymyrraeth. Y nod yw y bydd nifer o brosiectau yn dal i fwrw ymlaen â chyfraniad gan CCC ond efallai y bydd angen ceisio cyllid arall i lenwi'r bwlch.

Gall sefydliadau fel CAVO neu wefan Cyllid Cymru (<https://funding.cymru/>) gynorthwyo i ddod o hyd i ddewisiadau eraill posibl ar gyfer cyllid.

Er enghraifft, dau gynllun grant sydd ar gael sydd â nodau tebyg â chynllun grant y Cyngor yw;

- Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n darparu grantiau bach o dan £25k a grantiau mwy hyd at £300k. Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae'n darparu grantiau o £3k i £10k.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen gwybodaeth am ddiwylliant a'r iaith Gymraeg

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol.

Effeithiau negyddol posibl tebyg fel y disgrifiwyd eisoes mewn adrannau eraill.

Mae llawer o'r grantiau a ddarperir drwy'r cynllun Grant Cymunedol ar gyfer clybiau chwaraeon, sioeau lleol a grwpiau cymunedol. Mae Grantiau Polisi hefyd yn darparu cyllid i gynorthwyo nifer o Bapurau Bro ac Eisteddfodau. Gallai llai o arian gael effaith negyddol ar agweddau diwylliannol y rhain ac agwedd Gymraeg Papurau Bro ac Eisteddfodau. Fodd bynnag, gellir blaenoriaethu'r meysydd hyn ar gyfer cyllid gan ddefnyddio Cronfa Eglwys Cymru felly efallai na fydd llawer o newidiadau o gwbl.

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Ceisiadau blaenorol am grantiau

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at yr egwyddor hon?

Bydd cyllid yn dal i fod ar gael i'r grwpiau uchod drwy'r cynllun Grant Cymunedol ond mae'n debygol o fod ar lefel lai nag o'r blaen. Bydd ceisiadau'n parhau i gael eu derbyn gan yr un grwpiau a byddant yn cael eu barnu yn ôl eu teilyngdod eu hunain yn erbyn meini prawf y Grant Cymunedol a'r arian sydd ar gael bryd hynny.

Mae ffynonellau cyllid eraill hefyd ar gael fel y disgrifiwyd mewn adrannau blaenorol.

Gan gyfeirio at y canlynol, a ydych chi'n credu y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar y Gymraeg?

Cliciwch [yma](#) am wybodaeth

Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg	Negyddol
Trin y Gymraeg, dim llai ffafriol na'r Saesneg	Dim / Fawr Ddim

Pa dystiolaeth sydd gennych i gefnogi'r safbwynt hwn?

Fel y nodwyd uchod, mae'r effaith ddisgwyliedig ar y Gymraeg yn mynd i fod yn gyfyngedig. Ond mae'n rhesymol disgwyl rhywfaint o effaith negyddol os oes gan y Cyngor lai o arian ar gael i gefnogi Papurau Bro, Eisteddfodau, sioeau a digwyddiadau lleol lle mae'r Gymraeg yn debygol o gael ei defnyddio'n sylweddol. Fodd bynnag, gellir blaenoriaethu'r meysydd hyn gyda chyllid Cronfa Eglwys Cymru felly efallai na fyddant yn gweld llawer o newid yn y Cynllun Diwygiedig.

Pa gamau y gallwch eu cymryd i gynyddu'r effaith gadarnhaol neu liniaru unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg?

Mae'r Cynllun Grant Cymunedol yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer cyllideb lai. Yn amodol ar gytundeb Craffu / Cabinet bydd y cynllun yn cael ei ddiwygio mewn ffordd sy'n ceisio cefnogi cymaint o brosiectau â phosibl ond gyda uchafswm cyfradd gyfraniad/ymyrraeth. Y nod yw y bydd nifer o brosiectau yn dal i fwrw ymlaen â chyfraniad gan CCC ond efallai y bydd angen ceisio cyllid arall i lenwi'r bwlch.

Gall sefydliadau fel CAVO neu wefan Cyllid Cymru (<https://funding.cymru/>) gynorthwyo i ddod o hyd i ddewisiadau eraill posibl ar gyfer cyllid.

Nod Llesiant Cenedlaethol: Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymdeithas sy'n ystyried sut y gallai ein gweithredoedd effeithio ar wledydd a phobl eraill ledled y byd.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen am gyfrifoldeb byd-eang.

Ydy'r cynnig yn cyfrannu at y nod hwn? Disgrifiwch yr effeithiau cadarnhaol neu negyddol. [AWGRYM](#)

Nid oes disgwyliad y bydd cyllideb lai ar gyfer y Cynllun Grantiau Cymunedol yn cael effaith ar Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-Eang

Pa dystiolaeth sydd gennych i ategu'r farn hon?

Ceisiadau grant blaenorol.

Pa gam(au) allwch chi ei gymryd/eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i gyfrannu'n well at y nod?

AMH

Cryfhau'r Cynnig

Os ydych wedi nodi unrhyw effeithiau negyddol yn yr adrannau uchod, rhowch fanylion am unrhyw newidiadau a chamau gweithredu ymarferol a allai helpu i ddileu neu leihau'r effeithiau negyddol.

Beth fyddwch chi'n ei wneud?	Pryd?	Pwy sy'n gyfrifol?	Cynnydd
Ar hyn o bryd rydym yn edrych i adolygu'r cynllun Grant Cymunedol presennol mewn ffordd fach i alluogi'r Cyngor i barhau i gefnogi nifer o brosiectau/sefydliadau yn y Sir ond i raddau gwerth/ymyrraeth llai.	Mawrth 2024	Tîm Grantiau Cymunedol	Ar y gweill. Disgwylir iddynt gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu priodol a chymeradwyaeth y Cabinet ym mis Mawrth 2024
Gall sefydliadau fel Cavo gynorthwyo sefydliadau i ddod o hyd i ffynonellau cyllid amgen. Bydd y Swyddog Grantiau Cymunedol yn cyfeirio ymgeiswyr at CAVO os oes angen cyllid ychwanegol arnynt i gael cais llwyddiannus am gyllid Grant Cymunedol.	O fis Ebrill 2024 ymlaen	Swyddog Grantiau Cymunedol	I'w weithredu

Tudalen 54

<p>Os na chymerir camau i ddileu neu liniaru effeithiau negyddol, a fydddech cystal â chyfiawnhau pam. (<i>Os ydych wedi nodi unrhyw wahaniaethu anghyfreithlon yna mae'n rhaid newid neu ddiwygio'r cynnig.</i>)</p>			
AMH			
<p>Sut fyddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig?</p>			
<p>Ynghyd â monitro cyllidebau, mae'r Panel Asesu Grantiau Cymunedol yn cwrdd sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn a bydd yn monitro grantiau sy'n cael eu derbyn a'u cymeradwyo ac unrhyw newidiadau i'r cynllun er mwyn lliniaru'r effeithiau negyddol posibl a ddisgrifiwyd eisoes.</p>			

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: 5 Ffordd o Weithio

Disgrifiwch isod sut rydych wedi gweithredu'r pum ffordd o weithio yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

<p>Hirdymor Sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr ac anghenion tymor hir a'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Mae'r toriadau cyllid a gynigiwyd wedi'u gwneud fel rhan o broses gosod cyllideb 2024/25 er mwyn gosod cyllideb gytbwys.</p> <p>Mae'n weithred anodd i gydbwysu rhwng y gosod cyllideb gytbwys i'r Cyngor i ddarparu'r holl wasanaethau y mae'n eu gwneud, yn erbyn yr angen i gefnogi grwpiau a sefydliadau lleol sy'n darparu llawer o fanteision i drigolion Ceredigion sy'n gyson ag amcanion corfforaethol y Cyngor ei hun.</p> <p>Mae lefel y gyllideb bellach yn edrych i fod yn gynaliadwy wrth symud ymlaen, tra'n cynnig y gefnogaeth i brosiectau/sefydliadau cymunedol. Nid oedd y gyllideb flaenorol yn gynaliadwy yng nghyd-destun cyllideb ehangach y Cyngor.</p>
<p>Cydweithio Cydweithio â phartneriaid eraill i gyflawni canlyniadau</p> <p><u>AWGRYM</u></p>	<p>Oherwydd natur y cynllun Grant Cymunedol mae'r Cyngor eisoes yn cydweithio'n sylweddol â sefydliadau a chymdeithasau wrth eu cynorthwyo gyda'u ceisiadau am grant. Bydd hyn yn parhau.</p>

Tudalen 55

	Bydd y Cyngor hefyd yn cyfeirio ceisiadau tuag at sefydliadau eraill fel CAVO neu wefan Cyllid Cymru (https://funding.cymru/)
Cynnwys Cynnwys pobl sydd â buddiant a gofyn am eu barn <u>AWGRYM</u>	Ychydig o gyfranogiad sydd wedi bod â rhanddeiliaid hyd yn hyn. Fodd bynnag, bydd gwelliannau i'r cynllun i ddarparu ar gyfer y gyllideb lai yn mynd drwy'r broses graffu briodol ym mis Mawrth 2024.
Atal Darparu adnoddau i atal problemau rhag codi neu waethygu <u>AWGRYM</u>	AMH – Cydbwysu cyllideb 2024/25 oedd y gofyniad sylfaenol ar gyfer y newid hwn.
Integreiddio Ystyried effaith eich cynnig ar bedwar piler llesiant (cymdeithasol, economaidd, diwylliannol a'r amgylchedd), amcanion cyrff cyhoeddus eraill ac ar draws meysydd gwasanaeth yn y Cyngor. <u>AWGRYM</u>	Dylai bod effaith gyfyngedig ar wasanaethau eraill y Cyngor. Fel y soniwyd uchod, bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried ac alinio ei hun yn fwy â chyrff a sefydliadau cyllido grantiau eraill fel CAVO wrth gefnogi ymgeiswyr y Grant Cymunedol.




Tudalen 56

Risg

Crynowch y risg sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

	1	2	3	4	5
Meini prawf asesu effaith	Isel iawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel iawn
Meini prawf asesu tebygolrwydd	Annhebygol o ddigwydd	Llai tebygol o ddigwydd	Yr un mor debygol o ddigwydd ag o beidio digwydd	Mwy tebygol o ddigwydd	Tebygol o ddigwydd
Disgrifiad o'r risg	Effaith (difrifoldeb)		Tebygolrwydd (y gallu i gyflawni)	Sgôr (Effaith x Tebygolrwydd)	
Nid yw'r Cyngor yn gallu cefnogi nifer o brosiectau Cymunedol a fyddai wedi cael eu cefnogi o'r blaen.	2		4	8	
Wrth symud ymlaen yn y tymor canolig i'r tymor hir, nid yw gwerth y grantiau unigol a gynigir yn ddigonol i fod o gymorth ystyrllon i ymgeiswyr. Yn enwedig ar ôl cyfnod o chwyddiant uchel.	2		4	8	

Cymeradwyo

Swydd	Enw	Llofnod	Dyddiad
Rheolwr Corfforaethol			
Swyddog Arweiniol Corfforaethol	Duncan Hall		21/02/2024
Cyfarwyddwr Corfforaethol	Barry Rees		21/02/2024
Deiliad y Portffolio	Gareth Davies		21/02/2024

CYNGOR SIR CEREDIGION

<u>Adroddiad i'r:</u>	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
<u>Dyddiad y cyfarfod:</u>	16 Mai 2024
<u>Teitl:</u>	Trosolwg o'r materion ariannol yn ystod y flwyddyn
<u>Pwrpas yr adroddiad:</u>	Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor o'r materion ariannol allweddol yn ystod y flwyddyn

1. Cyflwyniad

Roedd y broses o bennu Cyllideb 24/25 yn un heriol ac roedd yn cynnwys cymeradwyo tua 70 o gynigion i gwtogi'r Gyllideb a oedd yn dod i gyfanswm o tua £5.8m. Mae'r cynnydd wrth gyflawni'r Cwtogiadau Cyllidebol hyn yn cael ei adolygu a'i fonitro gan y Grŵp Arweiniol ar ddiwedd pob mis.

Yn ystod y flwyddyn y bwriad yw darparu'r wybodaeth ganlynol i bob Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn unigol:

- Y sefyllfa ariannol chwarterol ddiweddaraf fel yr adroddwyd i'r Cabinet, gan ddechrau gyda Chwarter 1 maes o law. Bydd hyn yn cynnwys yr adroddiadau Monitro Refeniw a Chyfalaf.
- Y sefyllfa ddiweddaraf o ran statws BRAG Cwtogiadau Cyllidebol 24/25 (Atodiad 1).

Bydd y wybodaeth hon yn galluogi'r Pwyllgor i graffu ar y materion ariannol sy'n berthnasol i'r meysydd Gwasanaeth sy'n dod o fewn ei gylch gwaith. Ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn gall y Pwyllgor ddewis bwrw golwg fanylach ar unrhyw ran o'r Gyllideb sydd o fewn ei gylch gwaith a hynny drwy'r Flaenraglen Waith.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau?

Ddim yn berthnasol – ystyriwyd y rhain, lle'r oeddent yn berthnasol, fel rhan o'r broses o bennu'r Gyllideb.

Argymhelliad:

Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad ac yn craffu ar y wybodaeth a ddarperir.

Rhesymau dros y penderfyniad:

I graffu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

Atodiadau:

Atodiad 1: Y sefyllfa ddiweddaraf o ran statws BRAG Cwtogiadau Cyllidebol 24/25.

Enw Cyswllt: Duncan Hall - Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael

Dyddiad yr Adroddiad: 03/05/24

Cynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb

Cyfeirnod yr Eitem	Gwasanaeth	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	Maes Gwasanaeth	Naratif	24/25 Arbedion Refeniw / Incwm Arfaethedig £'000	GCAG Statws (24/04/24)	Sylwadau
1	Cyllid a Chaffael	Adnoddau Corfforaethol	Rhyddhad Dewisol Ardrethi Annomestig Cenedlaethol	Lleihau'r hyblygrwydd sydd ar gael yn y gyllideb bresennol a lleihau'r cymorth o 01/04/25 i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngheredigion ynghyd ag uchafswm lefel dyfarniad	10	Glas	
2	Cyllid a Chaffael	Adnoddau Corfforaethol	Cynllun Grantiau Cymunedol	Lleihad yng nghwmpas y Cynllun i ddarparu grantiau refeniw yn unig drwy Gronfa'r Degwm a'r gyllideb grant cyfalaf i'w lleihau o £200k i £100k	26	Gwyrdd	Adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol 16/05/24 yna Cabinet ar 04/06/24
3	Cyllid a Chaffael	Adnoddau Corfforaethol	Yswiriant	Arbedion Gweithredol	50	Glas	
4	Cyllid a Chaffael	Adnoddau Corfforaethol	Rheoli'r Trysorlys	Parhau i ddarparu Arbedion Rheoli'r Trysorlys - Llog a Dalwyd ar Fenthycia / Incwm Buddsoddi	365	Gwyrdd	
5	Cyllid a Chaffael	Adnoddau Corfforaethol	Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	Arbedion Gweithredol yn seiliedig ar niferoedd cyfredol	200	Glas	
6	Cyllid a Chaffael	Adnoddau Corfforaethol	Grant Claddu ac Amlosgi Plant Llywodraeth Cymru	Arbedion Gweithredol - Disgwylir i'r grant gael ei drosglwyddo i'r Setliad Terfynol, ychydig iawn o wariant blynyddol	15	Glas	
18	Gwasanaethau Democraataidd	Adnoddau Corfforaethol	Cyfieithu	Arbedion gweithredol i leihau lefel y Cyfieithu allanol	15	Glas	
29	Pobl a Threfniadaeth	Adnoddau Corfforaethol	Amrywiol	Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd	20	Glas	
30	Cyfreithiol a Llywodraethu	Adnoddau Corfforaethol	Amrywiol	Arbedion gweithredol / arbedion effeithlonrwydd	19	Gwyrdd	
32	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd	Adnoddau Corfforaethol	Cyflenwadau a Gwasanaethau	Arbedion gweithredol i leihau gwariant 3ydd Parti	6	Glas	
33	Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Adnoddau Corfforaethol	Ffonau Symudol / Cysylltiadau	Arbedion gweithredol o ostyngiad mewn Ffonau Symudol / Cysylltiadau TG	55	Gwyrdd	
34	Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Adnoddau Corfforaethol	Trwydded Zoom	Arbedion gweithredol o symud yn llwyr i Microsoft Teams	9	Glas	
35	Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Adnoddau Corfforaethol	Argraffu a Phost	Arbedion effeithlonrwydd gweithredol trwy adolygu Gwasanaethau'r Ystafell Bost a Repograffeg	32	Ambr	
36	Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Adnoddau Corfforaethol	Llyfrgelloedd	Cadw presenoldeb ym mhob un o'r 4 tref bresennol ond cydeoli darpariaeth llyfrgelloedd gyda Gwasanaethau eraill y Cyngor lle bo modd, ynghyd ag adolygu oriau agor pob lleoliad.	70	Coch	
37	Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Adnoddau Corfforaethol	Llyfrgelloedd - Cymorth i Ysgolion	Rhoi'r gorau i'r cymorth ychwanegol a roddir i Ysgolion o ran Llyfrgelloedd (Nid yw hyn yn effeithio ar ddarpariaeth y Llyfrgelloedd y mae pob Ysgol ei hun yn ei gweithredu ar hyn o bryd)	47	Gwyrdd	
38	Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol	Adnoddau Corfforaethol	Gwasanaeth Llyfrgell Deithiol	Lleihau'r gweithrediad presennol o 3 cherbyd craidd + 1 fan ddo sbarthu i 2 gerbyd craidd.	70	Gwyrdd	
45	Economi ac Adfywio	Adnoddau Corfforaethol	Arbedion Ynni	Arbedion a ragwelir o brisiau nwy is o Hydref 23 (dangosol 13%)	25	Glas	
46	Economi ac Adfywio	Adnoddau Corfforaethol	Adeiladau Swyddfeydd Gweithredol	Parhau i wneud y mwyaf o'r ystod o wasanaethau i'r cyhoedd yng Nghanolfan Rheidol, Aberystwyth a Phenmorfa Aberaeron a chwilio am ddefnydd amgen o Neuadd y Sir, Aberaeron (£150k eisoes wedi'i ragdybio yng nghyllideb sylfaenol 23/24)	50	Gwyrdd	
47	Economi ac Adfywio	Adnoddau Corfforaethol	Ystad Gorfforaethol / Adeiladau Masnachol a Defnydd o Le	Parhau i wneud y mwyaf o gyfleoedd incwm gan gynnwys adennill yr holl gostau, dilyn adolygiadau rhent, cadw v gwerthu v ystyriaethau addasu at ddbienion gwahanol	100	Ambr	Gwaith yn mynd rhagddo

Cynigion ar gyfer Lleihau'r Gyllideb

Cyfeirnod yr Eitem	Gwasanaeth	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu	Maes Gwasanaeth	Naratif	24/25 Arbedion Refeniw / Incwm Arfaethedig £'000	GCAG Statws (24/04/24)	Sylwadau
48	Economi ac Adfywio	Adnoddau Corfforaethol	Cynlluniau Ynni	Llai o gostau rhedeg yn dilyn buddsoddiad cyfalaf mewn Cynlluniau Ynni - yn amrywio o gynllun Re:Fit Llywodraeth Cymru i PVs Solar ar adeiladau allweddol (£125k eisoes wedi'i ragdybio yng nghyllideb sylfaenol 23/24)	100	Ambr	Caffael yn dod i derfyn (a rhagwelir rhywfaint o arbedion gan bris ynni is ym mis Hydref 2024)
69	Economi ac Adfywio	Adnoddau Corfforaethol	Arbediad Trethi Busnes	Rhyddhad Gwres ar 2 gyfleuster Biomass	19	Glas	

CYFANSWM:	1,303
------------------	--------------

Maer' dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol
Dyddiad y cyfarfod:	16 Mai 2024
Teitl:	Adroddiad Blynyddol Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi 2023-2024
Pwrpas yr adroddiad:	Cynnig cyfle i'r Pwyllgor Craffu ystyried y cynnydd a wnaethpwyd wrth gyflawni Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi y Cyngor yn ystod 2023-24

Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:

Fel y Pwyllgor Craffu dynodedig sydd â throsolwg o ymgysylltu ac ymgynghori.

Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:

Y Cynghorydd Matthew Vaux – Partneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu a Diogelu'r Cyhoedd

Cefndir

Cymeradwywyd Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion, 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd' gan y Cabinet ar 04/10/2022 ac fe'i cyhoeddwyd ar 18/10/2022.

[engagement and participation policy ceredigion county council.pdf](#)

Hwn yw'r ail Adroddiad Blynyddol sy'n amlinellu ein cynnydd wrth gyflawni'r Polisi.

Y Sefyllfa Bresennol

Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol fel Atodiad 1. Mae'r cynllun gweithredu wedi symud yn ei flaen yn sylweddol ers yr adroddiad blynyddol diwethaf ac mae 10 cam gweithredu bellach yn symud yn eu blaen neu wedi cael eu cwblhau ac mae 2 gam gweithredu yn dangos ychydig gynnydd. Nid oes unrhyw gamau gweithredu nad ydynt yn symud yn eu blaen.

Cynhaliwyd 23 o ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod 2023-24. Mae hyn yn saith yn fwy nag y cynhaliwyd y llynedd.

Mae nifer yr ymatebion yn dibynnu'n fawr ar bwnc yr ymgyrch, fel y dangosir gan y graff ar dudalen 18 yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r ddau gam gweithredu Oren (sy'n dangos ychydig gynnydd) yn ymwneud â datblygu plattform ymgysylltu ar-lein a gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori. Mae cynlluniau mewn grym i symud ymlaen gyda'r gwaith hwn. Rhagwelwn y bydd yr holl gamau gweithredu yn symud ymlaen fel y disgwyl neu wedi cael eu cwblhau erbyn yr adeg pan gyhoeddir y trydydd adroddiad blynyddol, yn ystod y Gwanwyn 2025.

Tudalen 62

Gwaith Gwella yn y Dyfodol

Bydd platfform newydd Fy Nghyfrif yn ein helpu i feithrin ein perthynas ar-lein gyda phobl sydd wedi mynegi diddordeb penodol yn ein hymgyngoriadau. Rydym yn gweithio ar welliannau i'r dudalen ar y we ynghylch Ymgysylltu ac Ymgynghori hefyd, fel y gall pobl weld canlyniadau eu hadborth yn fwy clir.

Adolygir y polisi Ymgysylltu a Chyfranogi yn 2025 ac mae'n debygol y bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys set newydd o gamau gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein harfer.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, esboniwch pam.

Naddo, nid yw'n cyfateb â newid mewn polisi neu i wasanaeth.

Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig:

Tymor hir:

Cydweithio:

Cyswllt:

Atal:

Integreiddio:

Argymhelliad(argymhellion):

Ystyried cynnwys Adroddiad Blynyddol 2023-2024 y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi a rhoi adborth i'r Cabinet ei ystyried pan gyflwynir yr adroddiad iddynt ar 4 Mehefin 2024.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Sicrhau gweithgarwch craffu priodol o'r Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi.

Enw Cyswllt: Cathryn Morgan

Swydd: Rheolwr Cydraddoldebau a Chynhwysiant

Dyddiad yr Adroddiad: 25/04/2024

Acronymau: Dim

Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd'

Adroddiad Blynyddol

2023-2024



This document is also available in English



Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Awdur: CM, Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Deiliad Portffolio: Cyng Matthew Vaux

Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion

Adroddiad Blynyddol

2023-2024

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Cyngor yn ystod 2023-24 i gyflawni ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi.

Pam Ymgysylltu?

Mabwysiadom ein Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi ym mis Hydref 2022. Mae'n nodi sut y byddwn yn siarad gyda ac yn gwrando ar bawb sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yng Ngheredigion, gan gynnwys pobl nad yw eu lleisiau'n cael eu clywed yn aml.

Mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar bobl yng Ngheredigion er mwyn clywed eu gweledigaeth nhw ar gyfer eu cymunedau a'r hyn y maent yn ei ddymuno o ran darparu gwasanaethau.

Nodir ein dyletswydd gyfreithiol i ymgynghori mewn darnau amrywiol o ddeddfwriaeth, gan gynnwys:

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – rhaid i'r Cyngor gynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau Llesiant Cenedlaethol.
- **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2023** – rhaid i'r Cyngor annog cyfranogiad y cyhoedd yn ein penderfyniadau ac ymgynghori â phobl leol am y graddau y mae'r cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd effeithiol.
- **Mesur y Gymraeg 2011** – rhaid i'r Cyngor ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar yr effaith y bydd ein penderfyniadau yn ei chael ar yr Iaith Gymraeg.
- **Deddf Cydraddoldeb 2010** – rhaid i'r Cyngor gynnwys ac ymgysylltu â phobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchoddedig.
- **Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996** – rhaid i'r Cyngor ymgynghori â sefydliadau a bennir yn y Rheoliadau a rhaid iddynt hysbysu pobl sy'n debygol o gael eu heffeithio gan orchymyn traffig.
- **Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013** – rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r [Cod Trefniadaeth Ysgolion](#) sy'n amlinellu'r egwyddorion y dylid eu hystyried wrth gynnig gwneud newidiadau i ddarpariaeth ysgolion.

Tudalen 65

Nid yw'n ymwneud â'n dyletswydd gyfreithiol yn unig, fodd bynnag. Mae ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd yn rhoi gwell gwybodaeth i ni i helpu i wneud penderfyniadau. Gall hyn arwain at ganlyniadau gwell i'n trigolion.

Beth yw Cyfranogi?

Mae cyfranogi yn ddull gweithredu er mwyn annog y cam o gynnwys pobl mewn prosiect, rhaglen neu weithgarwch mewn ffordd weithredol. Gall hyn amrywio o ymgysylltu i ymgynghori a chydweithio a grymuso.

Beth yw Ymgysylltu?

Efallai y byddwn yn cynnal ymgyrch ymgysylltu benodol i gasglu safbwyntiau ychwanegol cyn datblygu cynllun neu brosiect newydd sy'n arwain at newid i wasanaeth.

Beth yw Ymgynghori?

Fel arfer, defnyddir ymgynghoriadau i gasglu barn pobl am gynllun neu brosiect drafft a ddatblygwyd gennym, yn enwedig pan fydd yn arwain at newid i'r gwasanaeth.

Cwblhawyd un ar ddeg o ymgyrchoedd ymgysylltu a deuddeg o ymgyrchoedd ymgynghori yn ystod 2023-24. Mae Adran 2 yr adroddiad hwn yn cynnwys mwy o fanylion. Mae hyn yn ein helpu i gadw dull gweithredu cyson pan ddatblygir yr ymgyrchoedd gan y timau amrywiol ar draws y cyngor.

Byddwn yn sicrhau hefyd y defnyddir canlyniadau ymgyrchoedd i gyfrannu at benderfyniadau a wneir gan Aelodau Etholedig. Yn ystod 2023-24, roedd y Cabinet a'r Cyngor llawn wedi gwneud un ar ddeg penderfyniad a arweiniodd at newidiadau i wasanaeth, polisi neu strategaeth, a fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar y cyhoedd. Mae swyddogion y Cyngor yn paratoi adroddiad i Aelodau Etholedig er mwyn helpu i gyfrannu at eu penderfyniadau. Roedd 100% o'r adroddiadau yr oedd gofyn gwneud y math hwn o benderfyniad amdanynt yn cynnwys crynodeb o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd er mwyn helpu i ddatblygu'r newid arfaethedig. Gellir gweld manylion yn yr adroddiad perthnasol i'r Cabinet neu'r Cyngor, a chyhoeddir y rhain i gyd ar ein gwefan.

Rydym wedi mabwysiadu dull 'ymgysylltu parhaus' wrth ddatblygu ein gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid penodol. Er enghraifft, Cyngor Ieuenctid Ceredigion, y Fforwm Anabledd, Partneriaeth Natur Leol a'r fforwm Gofalwyr. Mae hwn yn rhan o'n dull gweithredu wrth ymgysylltu a chyfranogi. Mae'n rhoi cychwyn cadarn i ni pan fyddwn yn datblygu gwasanaethau a strategaethau newydd gan ein bod wedi bod yn siarad yn rheolaidd gyda'r bobl sydd â phrofiad o'r pwnc.

Mae ein Pecyn Cymorth Ymgysylltu newydd yn rhestru'r rhanddeiliaid gorfodol y mae'n rhaid iddynt gael gwybodaeth am ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r rhestr

Tudalen 66

yn cynnwys Aelodau Etholedig, y Grŵp Arwain, Cynghorau Tref a Chymuned, staff Cyngor Sir Ceredigion ac aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion. Mae'r pecyn cymorth hefyd yn rhestru manylion cyswllt pobl sy'n gallu ein helpu i hyrwyddo ein hymgyngoriadau. Er enghraifft, Rhwydwaith Canolfannau Teuluoedd Ceredigion, clybiau Ffermwyr Ifanc a Fforwm Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog.

ADRAN 1

Cynllun gweithredu: Cynnydd 2023-24

Nod 1: Prif ffrydio gwaith ymgysylltu a chyfranogi effeithiol ar draws Cyngor Sir Ceredigion

Cam Gweithredu	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws COG
Datblygu pecyn adnoddau Ymgysylltu a rhoi hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio i bob Rheolwr Corfforaethol.	Datblygwyd y pecyn cymorth ac mae ar gael i'r holl staff ei lawrlwytho o'n gwefan fewnol. Rhoddwyd sesiwn am ei ddefnyddio i Reolwyr Corfforaethol ym mis Tachwedd 2023.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd ar y trywydd iawn
Cadw amserlen o ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu a gyflawnir gan holl Wasanaethau'r Cyngor.	Mae'r amserlen yn cael ei chadw gan y tîm Cydraddoldeb a Chynhwysiant a bydd yn cael ei diweddarau'n barhaus.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd wedi'i gwblhau
Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol Ymgysylltu i fonitro'r datblygiadau wrth i ni newid sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd.	Mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofyniad ar gyfer 2023-24. Caiff yr adroddiad ei graffu gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol cyn ei gyhoeddi ar ein gwefan.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd ar y trywydd iawn

Nod 2: Sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phobl Ceredigion yn y ffordd orau

Cam Gweithredu	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws COG
Adolygu a diweddarau ein rhestr o grwpiau Rhanddeiliaid.	Adolygwyd a diweddarwyd y rhestr yn ôl yr angen. Mae'n rhan o'r pecyn cymorth Ymgysylltu ac mae ar gael i holl staff y Cyngor.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd wedi'i gwblhau
Datblygu'r defnydd o lwyfannau ymgysylltu ar-lein a pharhau i ddefnyddio dulliau ymgysylltu nad ydynt yn ddigidol.	<p>Caiff y dudalen Ymgysylltu ac Ymgynghoriadau ar y we ei diweddarau yn barhaus.</p> <p>Lansiwyd Fy Nghyfrif ym mis Mawrth 2024. Cynlluniwyd y gwasanaeth cyfrif cwsmer ar-lein newydd hwn i wella'r gweithgarwch cyfathrebu gyda phobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 366 o bobl wedi cofrestru i gael eu diweddarau am ymgynghoriadau Cyngor Ceredigion trwy gyfrwng Fy Nghyfrif. Byddwn yn datblygu'r llwyfan ar-lein hwn yn ystod 2024-25.</p> <p>Mae dulliau ymgysylltu nad ydynt yn rhai digidol yn cael eu defnyddio o hyd. O wneud cais, mae copiâu papur o arolygon ar gael gan ein Llyfrgelloedd a'n Canolfannau Hamdden/Llesiant a chaiff posteri eu creu i hyrwyddo ein hymgyrchoedd. Cynhelir grwpiau ffocws a sesiynau galw heibio pan fo hynny'n briodol. Mae'r presenoldeb yn y rhain yn aml yn isel, ond mae ansawdd y wybodaeth a gesglir yn uchel.</p>	Pob Rheolwr Corfforaethol	Oren rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud
Gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rheini sydd wedi cymryd rhan yn ein hymarferion ymgysylltu.	Amlinellir dull adborth cyson yn y pecyn cymorth Ymgysylltu. Amlygir pwysigrwydd adborth ymhellach mewn hyfforddiant ynghylch defnyddio'r pecyn cymorth.	Pob Rheolwr Corfforaethol	Oren rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud

Nod 3: Bodloni ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth

Cam Gweithredu	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws COG
Sicrhau bod mecanwaith ar waith fel bod y cyhoedd yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor yn bersonol neu o bell drwy system gyfarfod hybrid.	Cyflwynwyd y protocol drafft ynghylch Presenoldeb mewn Cyfarfodydd aml-leoliad yr Awdurdod Lleol a Darllediadau Electronig Cyfarfodydd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 09/06/2023 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ar 26/10/23.	Gwasanaethau Democrataidd	Gwyrdd wedi'i gwblhau
Diwygio a diweddarau ein hofferyn Asesu Effaith Integredig (AEI)	Cyflwynwyd yr offeryn Asesiad Effaith Integredig diwygiedig i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ac fe'i cymeradwywyd gan y Cabinet. Rhoddwyd sesiwn hyfforddiant i Reolwyr Corfforaethol ym mis Medi 2023 ac i Aelodau Etholedig ym mis Hydref 2023. Mae swyddogion wedi bod yn ei ddefnyddio er 1 Rhagfyr 2023.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd wedi'i gwblhau
Sefydlu system e-ddeisebau a chyhoeddi protocol sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â deisebau ac ymateb iddynt.	Rhestrir y Protocol Deisebau dan Rhan 5 (Codau a Phrotocolau) cyfansoddiad Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r cyfansoddiad ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor – Cyfansoddiad y Cyngor – Cyngor Sir Ceredigion . Cyflwynwyd adroddiad am ddiwygiadau i'r protocol, gan gynnwys e-ddeisebau, i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Medi 2023 ac i gyfarfod y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Mae'r Protocol Deisebau diwygiedig bellach wedi cael ei gymeradwyo a disodlwyd y ddogfen bresennol yng Nghyfansoddiad y Cyngor gyda'r protocol diwygiedig.	Gwasanaethau Democrataidd	Gwyrdd wedi'i gwblhau

Nod 4: Cadw llygad ar y datblygiadau a'r arferion gorau diweddaraf ym maes ymgysylltu

Cam Gweithredu	Cynnydd	Cyfrifoldeb	Statws COG
Adolygu a diwygio Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Cyngor Sir Ceredigion	Cyhoeddwyd y Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi cyfredol ym mis Hydref 2022. Bydd yn cael ei adolygu yn 2025, neu cyn hynny os bydd angen.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd ar y trywydd iawn
Sicrhau bod y pecyn cymorth ymgysylltu yn gyfredol fel y gall pob aelod o staff ei ddefnyddio.	Cyhoeddwyd y pecyn cymorth ymgysylltu newydd ar ein gwefan fewnol ym mis Ionawr 2024. Fe'i diweddarwyd ym mis Chwefror 2024 yn dilyn awgrym a wnaethpwyd gan Fforwm Ieuenctid Ceredigion. Byddwn yn parhau i'w ddiweddarau yn ôl yr angen.	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd ar y trywydd iawn
Cydweithio â'n cydweithwyr ym maes ymgysylltu a chydaddoldeb ledled Cymru.	<p>Mae'r rheolwr Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn aelod o Grŵp Partneriaeth Cymunedau Dyfeisgar Gofal Cymdeithasol Cymru.</p> <p>Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion yn cael cymorth pwrpasol gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru er mwyn ein helpu i ddatblygu dulliau ymgysylltu a chynnwys ystyrlon, gan symud tuag at gyd-gynhyrchu llawn.</p> <p>Rydym hefyd yn cael budd gan ymchwil a gwybodaeth a ddosbarthir gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) a Data Cymru. Mae hyn yn ein helpu i glywed am arfer da a datblygiadau cenedlaethol.</p>	Swyddogion Cydraddoldeb a Chynhwysiant	Gwyrdd ar y trywydd iawn

ADRAN 2

Cynhaliwyd un ar ddeg o ymgyrchoedd ymgysylltu yn ystod 2023-24

1. Cynlluniau Rheoli ac Arfarniadau Ardaloedd Cadwraeth (Mawrth 2023 – Mawrth 2024)

Mae ardaloedd cadwraeth yn ardaloedd o werth hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Ymgyrch oedd hwn i gasglu safbwyntiau a gwybodaeth gan breswylwyr lleol a phartïon sydd â diddordeb, megis Cymdeithasau Hanesyddol, er mwyn cyfrannu at y cynlluniau rheoli a'r arfarniadau.

Nifer yr ymatebion: 57

Beth nesaf: Defnyddiwyd yr ymgysylltiad cychwynnol i gyfrannu at y gwaith o baratoi cynlluniau ac arfarniadau ardaloedd cadwraeth drafft. Bydd gofyn cynnal gweithgarwch ymgynghori pellach cyn iddynt gael eu mabwysiadu.

2. Darpariaeth Gwasanaethau Dydd a Seibiant (Mawrth – Mehefin 2023)

Cynhaliwyd adolygiad o'r gwasanaethau hyn fel rhan o'r gwaith o gyflawni Strategaeth Llesiant Gydol Oes y Cyngor. Holwyd barn pobl am y gwasanaethau dydd a seibiant presennol a gofynnwyd iddynt nodi'r hyn yr hoffent ei weld yn y dyfodol.

Nifer yr ymatebion: 411

Beth nesaf: Cymeradwywyd canlyniadau'r ymgyrch a chynllun gweithredu arfaethedig gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2023. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Bydd bwrdd rhaglen Llesiant Gydol Oes a Grŵp Strategol Ceredigion Iachach yn sicrhau y cyflawnir y cynllun gweithredu.

3. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Mai – Gorffennaf 2023)

Ymarfer canfod ffeithiau rhanbarthol yn holi barn y cyhoedd am gyflwr cydraddoldeb yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Phowys. Cyflwynwyd adroddiad am yr ymgyrch ymgysylltu i'r Cabinet ym mis Hydref 2023.

Nifer yr ymatebion: 224

Beth nesaf: Defnyddiwyd yr ymatebion i ysgrifennu drafft cyntaf Cynllun Cydraddoldeb Strategol Ceredigion 2024-28. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

4. Tyfu Canolbarth Cymru – arolwg Sero Net (Awst – Medi 2023)

Arolwg rhanbarthol i nodi cyfleoedd a sialensiau y mae busnesau yng Nghanolbarth Cymru yn eu hwynebu i leihau eu hallyriadau nwy tŷ gwyr. Rhoddwyd adborth i'r cyhoedd, busnesau a rhanddeiliaid allweddol trwy gyfrwng cylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru Ionawr 2024.

Nifer yr ymatebion: 78

Beth nesaf: Cynhaliwyd digwyddiad busnes ym mis Mawrth 2024 i ledaenu'r canfyddiadau. Defnyddir barn pobl i siapio mentrau cyllido yn y dyfodol, cyfrannu at fuddsoddiadau yn y grid trydan a sicrhau bod cymorth wedi'i deilwra ar gael i fentrau lleol.

5. Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru – arolwg Cyflogaeth a Sgiliau (Hydref – Rhagfyr 2023)

Arolwg rhanbarthol i nodi sialensiau recriwtio a sgiliau y mae cyflogwyr a busnesau yng Ngheredigion a Phowys yn eu hwynebu. Hyrwyddwyd yr ymgyrch trwy gyfrwng rhwydweithiau busnes lleol a gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Bwydwyd y canlyniadau yn ôl trwy gyfrwng yr un sianelau.

Nifer yr ymatebion: 111 (32 o Geredigion, 70 o Bowys, 9 o weddill Cymru neu y tu allan i Gymru).

Beth nesaf: Bydd ymatebion yn cynorthwyo wrth siapio'r gwaith o ddarparu cymorth cyflogadwyedd a sgiliau yng Nghanolbarth Cymru. Trafodir ymatebion yn ystod cyfarfodydd grŵp clwstwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru hefyd

6. Partneriaeth Natur Leol Ceredigion – Cynllun gweithredu Adfer Natur (Tachwedd 2023 – Mawrth 2024)

Gofynnwyd i bobl lenwi arolwg ar-lein neu fynychu gweithdy i rannu eu barn a'u hadborth am ddrafft cyntaf Cynllun gweithredu Adfer Natur. Targedwyd yr ymgyrch at sefydliadau, tîffeddiawyr, academyddion, busnesau a'r sector cyhoeddus.

Nifer yr ymatebion: 48

Beth nesaf: Defnyddiwyd yr ymatebion er mwyn helpu i ddatblygu ail ddrafft Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Bartneriaeth. Cynhelir ymgynghoriad am hwn yn 2024-25.

7. Partneriaeth Natur Leol Ceredigion – Cefnogaeth ar gyfer Rheoli Dolydd (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)

Roedd y Bartneriaeth Natur Leol yn dymuno dysgu mwy am y cymorth ychwanegol y bydd ei angen efallai i adfer a gwella ein cynefinoedd glaswelltir arbennig. Gofynnwyd i bobl lenwi arolwg ar-lein, cymryd rhan mewn cyfweiliad strwythuredig neu ymuno â thrafodaeth yn un o gyfarfodydd y Bartneriaeth Natur Leol.

Nifer yr ymatebion: 71

Beth nesaf: Bydd tîm Bioamrywiaeth Ceredigion yn trefnu cyfarfod gyda rhanddeiliaid ym mis Ebrill 2024 i drafod y camau nesaf.

8. Canolfan Llesiant, Aberteifi (Rhagfyr 2023 – Chwefror 2024)

Gofynnwyd i bobl nodi'r hyn yr hoffent ei weld fel rhan o ddatblygiad Canolfan Llesiant posibl yn Aberteifi i wasanaethu de y sir. Estynnwyd gwahoddiad i bobl ymateb trwy lenwi arolwg ar-lein neu fynychu grŵp ffocws.

Nifer yr ymatebion: 417

Beth nesaf: Bydd y wybodaeth yn cyfrannu at adroddiad ar gyfer y Cabinet am leoliad arfaethedig ar gyfer Canolfan Llesiant yn Aberteifi a chynnig drafft am y cyfleusterau a'r gwasanaeth y byddai modd ei gynnig.

9. Arolwg 16+ a NEET (Ionawr – Mawrth 2024)

Anelwyd yr ymgyrch hwn at bobl yng Ngheredigion nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Roeddem yn dymuno cael gwybod mwy am y rhwystrau sy'n eu hatal rhag sicrhau cyflogaeth. Bydd hyn yn helpu'r tîm Cymorth Cyflogaeth i deilwra'r cymorth y maent yn ei gynnig.

Nifer yr ymatebion: 6

Beth nesaf: Adolygir y dull ymgysylltu. Efallai y cynhelir yr ymgyrch eto er mwyn ceisio cael mwy o ymatebion.

10. Lles Emosiynol Gofalwyr Di-dâl (Ionawr – Mawrth 2024)

Anelwyd yr ymgyrch hwn at Ofalwyr di-dâl yn benodol. Roeddem yn dymuno cael gwybod mwy am eu defnydd o'n Canolfannau Hamdden a Llesiant. Bydd hyn yn ein helpu i gynnig gwasanaethau sy'n bodloni eu hanghenion.

Nifer yr ymatebion: 29

Beth nesaf: Rhannwyd yr ymatebion gyda'r Tîm Cymorth Cymunedol a Gofalwyr. Ni ddadansoddwyd y data eto. Byddwn yn llunio adroddiad cryno a ffeithlun o'r canlyniadau ac yn rhannu hwn gyda'r cyhoedd.

11. Tyfu Canolbarth Cymru – Cynllunio Ynni Ardal Leol (Ionawr – Mawrth 2024)

Gofynnwyd i bobl fynegi eu barn am y defnydd a wneir o drafnidiaeth ac ynni ar hyn o bryd, systemau gwresogi a thechnolegau ynni carbon isel a dewisiadau teithio cynaliadwy. Y nod yw nodi llwybr effeithiol tuag at gyflawni'r targed sero net cenedlaethol.

Nifer yr ymatebion: 542

Beth nesaf: Cwblhawyd ein Cynllun Ynni Ardal Leol (LAEP) ym mis Mawrth 2024. Fe'i cyflwynir i'r Cabinet ym mis Mai 2024. Mae'r adroddiad yn cynnig y dystiolaeth ofynnol er mwyn helpu i ddatblygu prosiectau i drawsnewid y system ynni i fod yn un sero carbon gydag amser. Caiff barn y bobl i'r arolwg eu cynnwys wrth ddatblygu'r prosiectau hyn. Yn ychwanegol, defnyddir yr LAEP i sicrhau bod Cynllun Ynni Cenedlaethol Cymru yn ystyried anghenion a blaenoriaethau lleol, gan fapio'r galw am ynni a chyflenwad ynni yn y dyfodol ar gyfer pob rhan o'r wlad.

Cynhaliwyd deuddeg ymgyrch ymgynghori yn ystod 2023-24

1. Aildefnyddio hen adeilad llyfrgell Ceinewydd (Chwefror – Mai 2023)

Holodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y Cyngor i bobl yng Ngheinewydd yn bennaf a oeddent yn cytuno gyda chynnig i newid diben yr Ymddiriedolaeth hon i “hyrwyddo addysg trigolion Ceinewydd.” Yn ogystal, holwyd pobl sut y byddai modd defnyddio safle yr ymddiriedolaeth yn y dyfodol o fewn y diben arfaethedig newydd.

Nifer yr ymatebion: 32

Beth nesaf: Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ym mis Mehefin 2023. Cytunwyd newid y diben fel y cynigiwyd a holi a oes gan unrhyw grŵp neu sefydliad ddiddordeb mewn ymgymryd â'r cyfrifoldeb dros y safle. Mae 3 wedi mynegi diddordeb ac yn cael eu hystyried. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

2. Defnydd o arian ymddiriedolaeth elusen 'Hen Ysgol Sir, Tregaron' (Mawrth – Mai 2023)

Holodd Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau y Cyngor i bobl yn Nhregaron yn bennaf am eu barn ynghylch sut y dylid gwario'r arian a oedd wedi cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth o werthu'r ysgol i hyrwyddo addysg plant cyn ysgol a phlant ysgol yn Nhregaron.

Nifer yr ymatebion: 25

Beth nesaf: Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Pwyllgor Ymddiriedolwyr Elusennau ym mis Mehefin 2023. Roedd rhan fwyaf yr ymatebion yn ymwneud â chyfleusterau chwaraeon. Caiff penderfyniadau eu gwneud gyda swyddogion o'r Porth Cymorth Cynnar a'r gwasanaethau Ysgolion i archwilio dewisiadau perthnasol. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

3. Cyfyngiadau 20 milltir yr awr ar ffyrdd y sir (4 i 28 Ebrill 2023)

Hysbysebwyd y cynigion i newid y terfyn cyflymder ar ffyrdd penodol yn y sir i'r cyhoedd. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn gysylltiedig â chynllun Llywodraeth Cymru i ostwng y terfyn cyflymder ar ffyrdd preswyl/lle y ceir goleuadau stryd ym mis Medi 2023.

Nifer yr ymatebion: 76

Beth nesaf: Cyflwynwyd y canlyniadau i'r Cabinet ym mis Mehefin 2023. Nododd y Cabinet ymateb y swyddogion i'r gwrthwynebiadau, gan gymeradwyo'r cam o lunio a chyhoeddi'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Teimlwyd bod modd cyfiawnhau'r penderfyniad hwn ar y sail eang a roddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

4. Strategaeth Dai Leol – 'Tai i Bawb' (Mai – Mehefin 2023)

Holwyd pobl a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r weledigaeth, y blaenoriaethau, yr amcanion a'r camau gweithredu a gynigiwyd yn y Strategaeth. Arweiniodd yr ymgynghoriad at wneud rhai newidiadau i fersiwn derfynol y Strategaeth.

Nifer yr ymatebion: 40

Beth nesaf: Derbyniodd y Cabinet y newidiadau i'r Strategaeth ar 3 Hydref. Rhoddwyd cymeradwyaeth y Cyngor llawn iddi ar 26 Hydref 2023. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

5. Arolwg Rhanddeiliaid Ceredigion (Mehefin – Awst 2023)

Gofynnwyd i bobl am adborth ynghylch pa mor dda yr ydym yn rhedeg gwasanaethau'r cyngor ar gyfer pobl Ceredigion. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn rhan o'n proses hunanasesu flynyddol, ac roedd yr ymatebion wedi cyfrannu at ein hadroddiad hunanasesu ar gyfer 2022-23.

Nifer yr ymatebion: 148

Beth nesaf: Cymeradwywyd adroddiad Hunanasesu 2022-23 gan y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru, Estyn ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd. Bellach, cyhoeddwyd yr adroddiad ar ein gwefan ac mae'n cynnwys rhestr o gyfleoedd i sicrhau gwelliant er mwyn i ni roi sylw iddynt.

6. Premiymau Treth Gyngor ar 2il Gartrefi ac Eiddo Gwag Hirdymor (Medi – Tachwedd 2023)

Holwyd barn pobl am lefel y premiymau treth gyngor y dylid eu codi ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yng Ngheredigion. Hyrwyddwyd yr arolwg ymhlith y cyhoedd yng Ngheredigion a hefyd, ymhlith pobl sy'n berchen ar 2il gartrefi.

Nifer yr ymatebion: 1,403

Beth nesaf: Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2023. Cytunodd y Cyngor godi'r premiwm treth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor o 1 Ebrill 2024, ac y byddai'r codiad yn ddibynnol ar hyd y cyfnod yr oedd yr eiddo wedi bod yn wag. Cytunodd y Cyngor godi'r premiwm treth Gyngor ar 2il gartrefi i 100% o 1 Ebrill 2024 ac i 150% o 1 Ebrill 2025. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

7. Polisi Rheoli Harbyrau (Medi – Hydref 2023)

Roedd yr ymgyrch hwn yn agored i'r cyhoedd ac yn targedu pobl sydd â diddordeb yn yr harbyrau yn Aberaeron, Aberystwyth a Cheinewydd. Gofynnwyd i bobl am eu hadborth am y polisi diwygiedig. Rhoddwyd y newyddion diweddaraf i randdeiliaid trwy gyfrwng cyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbyrau a chyhoeddiadau Dyfroedd Tawel. Gwnaethpwyd diwygiadau i'r polisi o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

Nifer yr ymatebion: 108

Beth nesaf: Cyflwynwyd yr ymatebion a'r polisi diwygiedig i'r Cabinet ym mis Chwefror 2024. Cymeradwyodd y Cabinet y diwygiadau a wnaethpwyd o ganlyniad i'r ymgynghoriad, a chytunodd fabwysiadu'r polisi Rheoli Harbyrau newydd. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

8. Ad-drefnu Ysgolion (Medi – Hydref 2023)

Holwyd barn pobl am y cynnig i newid cyfrwng yr iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion cynradd Comins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Cheinewydd, a chynnig lle rhan-amser i ddisgyblion 3 oed yn ysgolion Comins-coch, Padarn Sant a Cheinewydd.

Nifer yr ymatebion: 74 (Ceinewydd: 10 ymateb; Comins-coch: 14 ymateb; Plascrug: 27 ymateb; Llwyn yr Eos: 6 ymateb; Padarn Sant: 11 ymateb). Roedd Cynghorau Ysgol y bum ysgol ac Estyn wedi ymateb hefyd.

Beth nesaf: Penderfynodd y Cabinet ddiwygio'r ddarpariaeth iaith yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion cynradd Comins-coch, Llwyn yr Eos, Padarn Sant, Plascrug a Cheinewydd. Yn ogystal, penderfynodd y Cabinet gynnig lle rhan-amser i ddisgyblion 3 oed yn ysgolion cynradd Comins-coch a Phadarn Sant, ond nid yn ysgol gynradd Ceinewydd. Cyhoeddir yr adroddiadau a chofnodion y cyfarfodydd, a gynhaliwyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2024, ar wefan y Cyngor.

9. Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio (Hydref – Tachwedd 2023)

Fel rhan o'r adolygiad hwn, estynnwyd gwahoddiad i bobl roi adborth am eu gorsaf bleidleisio leol, gan gynnwys cyfleusterau parcio, hygyrchedd a'u haddasrwydd yn gyffredinol. Gofynnwyd hefyd i bobl roi adborth am newidiadau i orsafoedd pleidleisio a awgrymwyd gan y Swyddog Canlyniadau.

Nifer yr ymatebion: 16

Beth nesaf: Trafodwyd adroddiad am y broses ymgynghori a'r newidiadau arfaethedig i orsafoedd pleidleisio yn ystod cyfarfod y Cyngor llawn ym mis Ionawr 2024. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.

10. Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 (Hydref – Rhagfyr 2023)

Holwyd pobl a oeddent yn teimlo mai'r Amcanion Cydraddoldeb drafft yw'r rhai iawn i Geredigion, ac a fyddai'r cynllun gweithredu drafft yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion.

Nifer yr ymatebion: 59

Beth nesaf: Cyflwynwyd adroddiad i'r Cabinet ym mis Mawrth 2024. Cymeradwywyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28 gan y Cabinet. Cyhoeddwyd yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir y Cynllun ei hun ar y wefan hefyd, a bydd adroddiad am gynnydd y cynllun yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn.

11. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (Rhagfyr 2023 – Ionawr 2024)

Nid oedd hwn yn ymgynghoriad cyhoeddus. Llanwyd offeryn asesu Llywodraeth Cymru yn dilyn cyfnod o ymchwil pen desg ac ymgysylltu gydag amrediad o randdeiliaid. Estynnwyd gwahoddiad i randdeiliaid penodol, gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, cynrychiolydd datblygwyr preifat, y Gymdeithas Ofal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Aelodau Etholedig a thimau perthnasol y cyngor i wneud sylwadau am ganfyddiadau'r Asesiad. Arweiniodd eu hadborth nhw at rai newidiadau i'r Asesiad drafft.

Nifer yr ymatebion: 18

Beth nesaf: Cymeradwyodd y Cabinet yr Asesiad yn ystod ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024. Bydd unrhyw gamau angenrheidiol a fydd yn dilyn yn rhan o'r Strategaeth Dai neu'r Cynllun Datblygu Lleol. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor.


12. Cynllun Trwyddedu ychwanegol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth (Ionawr – Chwefror 2024)

Gofynnwyd i bobl am eu hadborth am ansawdd y gwasanaeth a ddarparir gan eu landlord a chan Rhentu Doeth Cymru. Yn ogystal, gofynnwyd iddynt am eu hadborth am y cynllun trwyddedu tai amlfeddiannaeth. Cyfrannodd yr ymatebion at yr adolygiad o'r cynllun trwyddedu presennol, a fydd yn dod i ben ym mis Ebrill 2024.

Nifer yr ymatebion: 17

Beth nesaf: Trafodwyd yr adolygiad o'r cynllun Trwyddedu Ychwanegol presennol gan y Cabinet ym mis Mawrth 2024. Cyhoeddir yr adroddiad a chofnodion y cyfarfod ar wefan y Cyngor. Cyhoeddir yr Hysbysiad Cyhoeddus sy'n cynnwys manylion y cynllun ar y wefan hefyd.


Dadansoddiad o ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori 2023-24



Roedd bron pob ymgyrch yn ymgyrch canfod ffeithiau, er mwyn cyfrannu at gynllun, strategaeth neu wasanaeth, ond roedd dros hanner ohonynt yn ofynnol yn unol â deddfwriaeth – statudol. Er enghraifft:

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1996
- Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

Dulliau a ddefnyddiwyd i ymgysylltu a chyflwyno'r wybodaeth




Roedd yr holl ymgyrchoedd ar gael trwy arolwg ar-lein, ac roedd copiau papur yn aml ar gael.

Roedd 8 ymgyrch yn cynnwys grwpiau ffocws neu ddiwyddiadau galw heibio.

Roedd 6 ymgyrch wedi darparu fersiynau Hawdd i'w Darllen o'r wybodaeth ac roedd 5 ymgyrch wedi darparu fersiynau Print Mawr.

Mae Cyngor Ieuenctid Ceredigion wedi awgrymu y gallai fideos fod yn ddull da. Ni roddwyd cynnig ar y ffurf hwn eto.

Dulliau a ddefnyddiwyd i roi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd




Defnyddiwyd amrediad o wahanol ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i ymgyrchoedd. Roedd y rhan fwyaf o ymgyrchoedd yn cynnwys 3 neu 4 dull.

Y prif ddulliau a ddefnyddiwyd oedd negeseuon e-bost wedi'u targedu at randdeiliaid penodol, deunydd ar gyfryngau cymdeithasol a datganiad i'r wasg.

Mae sawl un o dimau'r cyngor yn cyfarfod yn rheolaidd gyda grwpiau o randdeiliaid ac mae ganddynt rwydwaith parod o randdeiliaid allweddol. Defnyddiwyd y rhwydweithiau hyn er mwyn helpu i hyrwyddo ymgyrchoedd.

A roddoch chi adborth i randdeiliaid?




Adroddodd mwyafrif y swyddogion eu bod wedi rhoi adborth am ganlyniadau eu hymgyrch i'r cyhoedd ac i randdeiliaid a enwyd.

Y prif ddull o roi adborth am y canlyniadau oedd trwy gyfrwng yr adroddiad a baratowyd ar gyfer y Cabinet, sydd ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan.

Roedd nifer fach o ymgyrchoedd wedi gorffen gyda neges benodol i randdeiliaid yn diolch iddynt am gymryd rhan a chan esbonio'r canlyniadau a'r camau nesaf.

Mae hwn yn faes y mae angen ei wella.

Nifer yr ymatebion i ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori 2023-24



Casgliad

Hwn yw'r ail adroddiad blynyddol am y cynnydd yr ydym wedi'i sicrhau wrth gyflawni polisi Ymgysylltu a Chyfranogi Ceredigion, sef 'Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd'.

Cynhaliwyd 23 o ymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori yn ystod 2023-24. Mae hyn yn saith yn fwy nag a gynhaliwyd y llynedd. Roedd pedwar o'r ymgyrchoedd yn rhai rhanbarthol. Cynhaliwyd tri ohonynt ar ran bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ac roeddent yn cynnwys Ceredigion a Phowys. Roedd yr ymarfer ymgysylltu a gyfrannodd at ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn un rhanbarthol hefyd, ac roedd yn cynnwys Ceredigion, Sir Benfro, Powys a Sir Gaerfyrddin.

Mae nifer yr ymatebion yn dibynnu ar bwnc yr ymgyrch. Gwelwyd nifer uchel iawn o ymatebion i'n hymgyngoriad am lefel y premiymau treth gyngor sy'n daladwy ar 2il gartrefi ac eiddo gwag hirdymor – pwnc cynhyrfaol iawn. I'r gwrthwyneb, dim ond 6 ymateb a gafwyd i'r ymgyrch i nodi rhwystrau y mae pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn eu hwynebu. Roedd yr ymgyrch hwn yn targedu pobl ifanc sy'n NEET, ac mae'r rhain yn grŵp y mae'n cael ei gydnabod yn eang eu bod yn grŵp anodd iawn i ymgysylltu â nhw.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi symud yn ei flaen yn sylweddol er mis Mawrth 2023, fel y dangosir yn y tabl isod.

	2022-23	2023-24
Gwyrdd – mae'r gweithredu yn mynd rhagddo fel y disgwyl neu wedi'i gwblhau	6	10
Oren – mae rhywfaint o gynnydd yn cael ei sicrhau	5	2
Coch – ni chaiff unrhyw gynnydd ei sicrhau	1	0

Mae'r ddau gam gweithredu Oren (sy'n dangos rhywfaint o gynnydd) yn ymwneud â datblygu llwyfan ymgysylltu ar-lein a gwella'r ffordd yr ydym yn rhoi adborth i'r rhai sydd wedi cymryd rhan yn ein hymgyrchoedd ymgysylltu ac ymgynghori. Mae cynlluniau mewn grym i fwrw ymlaen gyda'r gwaith hwn. Rhagwelwn y bydd yr holl gamau gweithredu yn mynd rhagddynt fel y disgwyl neu wedi cael eu cwblhau erbyn yr adeg pan gynhyrchir y trydydd adroddiad blynyddol, yn ystod y Gwanwyn 2025.

Gwaith Gwella yn y dyfodol

Bydd llwyfan newydd Fy Nghyfrif yn ein helpu i feithrin ein perthynas ar-lein gyda phobl sydd wedi mynegi diddordeb penodol yn ein hymgyngoriadau. Rydym hefyd yn gweithio ar welliannau i'r dudalen ar y we ynghylch Ymgysylltu ac Ymgynghori, fel y gall pobl weld canlyniadau eu hadborth yn fwy clir.

Tudalen 85

Adolygir y polisi Ymgysylltu a Chyfranogi yn 2025 ac mae'n debygol y bydd y cynllun gweithredu yn cynnwys set newydd o gamau gweithredu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i wella ein harfer.

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL**Adroddiad i'r: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol****Dyddiad y Cyfarfod: 16 Mai 2024****Teitl: Blaenraglen Waith Ddrafft 2024/25****Pwrpas yr adroddiad: Adolygu Rhaglen waith bresennol y Pwyllgor****Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:****Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddarau ymhob cyfarfod****Cefndir:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwyllo gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwsau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymhell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor

Tudalen 88

- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisiau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y Sefyllfa Gyfredol:

Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau

Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

Oes Aseiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam

Na

Crynodeb o'r Aseiad Effaith Integredig:

Hirdymor:

Cydweithio:

Cynnwys:

Atal:

Integreiddio:

Argymhelliad / Argymhellion:

Adolygu a diweddarau'r Blaenraglen Waith bresennol.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Enw Cyswllt: Dwynwen Jones

Swyddogaeth: Swyddog Cefnogi Trosolwg a Chraffu

Dyddiad yr adroddiad: 1 Mai 2024

Acronymau:

BW – Blaenraglen Waith

Tudalen 89

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Adnoddau Corfforaethol			
16 Mai 2024	<p>Diweddariad ar Perfformiad Diwygio Lles</p> <p>Cynllun Grant Cymunedol</p> <p>Diweddariad ar sefyllfa'r gyllideb y Gwasanaethau sydd dan remit y Pwyllgor yma cytunwyd yng nghyfarfod y Gyllideb.</p> <p>Adroddiad Blynyddol Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad 2023-2024</p>	<p>Ann Ireland</p> <p>Duncan Hall</p> <p>Duncan Hall</p> <p>Cathryn Morgan</p>	
9 Gorffennaf 2024	<p>Adroddiad Penderfyniadau Dirprwyiedig</p> <p>Strategaeth Ffermydd y Sir</p>	<p>Elin Prysor</p> <p>Arwyn Davies</p>	
8 Hydref 2024			
10 Rhagfyr 2024			
7 Chwefror 2025			
13 Mai 2025			

Tudalen 90

Eitemau cyfarfodydd y dyfodol ac eitemau sy'n dod yn gyson	Adroddiad pob 6 mis parthed Canmoliadau, Cwynion, Gwybodaeth Rhyddid Gwybodaeth ayb Strategaeth Digidol (yn dilyn yr ymgynghoriad)		
Tasg a Gorffen	Ffermydd y Sir – 23.5.24	Gwaith yn mynd yn ei flaen	

**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU ADNODDAU
CORFFORAETHOL**

**A gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell
trwy gynhadledd fideo ar ddydd Mawrth, 12 Mawrth 2024**

Yn bresennol: Y Cynghorydd Rhodri Evans (Cadeirydd) y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Raymond Evans, Paul Hinge, Hugh Hughes, Caryl Roberts, Ann Bowen Morgan, a Carl Worrall

Hefyd yn bresennol: y Cynghorydd Bryan Davies, Catrin M S Davies, Clive Davies, Matthew Vaux (Aelodau Cabinet) a Gareth Lloyd a Gwyn Wigley

Swyddogion yn bresennol:

Mrs Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyfreithiol a Llywodraethu, Mr Geraint Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Pobl a Threfniadaeth, Mr Alan Morris, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol, Ms Marie-Neige Hadfield, Rheolwr Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth, Mrs Diana Davies, Rheolwr Corfforaethol – Partneriaethau a Pherfformiad, Mrs Liz Merriman, Rheolwr Corfforaethol- Adnoddau Dynol, Mrs Katy Sinnott-Jones, Swyddog Llywodraethu, Mrs Dwywen Jones, Swyddog Cefnogi Craffu a Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau.

(2:00pm-4:10pm)

1 Ymddiheuriadau

Gwnaeth y Cynghorydd Ceris Jones ymddiheuro am ei hanallu i fynychu'r cyfarfod. Gwnaeth Mrs Diana Davies hefyd ofyn i gofnodi ymddiheuriadau dros Alun Williams, Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd.

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ann Bowen y byddai'n gadael y cyfarfod yn gynnar.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Gwnaeth y Cynghorydd Euros Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Rhodri Evans a Paul Hinge ddatgan buddiant personol yn eitem 3 a nodir isod.

3 **Polisi Cymorth i Deuluoedd ac Absenoldeb am Resymau Teuluol, Polisi Gwyliau ac Absenoldebau, Polisi Gweithio Hyblyg, Polisi Atal a Rheoli Straen a Polisi Gyrru yn y Gwaith, Fflyd y Cyngor (Diwygiwyd)**

Ystyriwyd y polisiau a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Bryan Davies.

Adroddwyd bod y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth wedi bod yn parhau i adolygu, datblygu a diweddarau'r polisiau allweddol. Yn dilyn ymgynghoriad, cafodd y polisiau canlynol eu trafod, eu diwygio a'u cadarnhau gan yr undebau llafur corfforaethol cydnabyddedig:

- Polisi Absenoldeb a Chymorth Teuluol
- Polisi Gwyliau ac Absenoldeb
- Polisi Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Atal a Rheoli Straen
- Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor (diwygiedig)

Pwrpas holl bolisiau a gweithdrefnau cyflogai oedd nodi'n glir yr ymddygiadau, y prosesau a'r gweithdrefnau gofynnol, sut y gallent gael cyngor a chefnogaeth a, lle bo'n berthnasol, canlyniadau peidio â chadw at y polisi a/neu'r weithdrefn. Cafodd cyflwyno'r polisiau hyn effaith ariannol ddibwys ac roedd yn disgwyl y byddai'n arbed costau yn gyffredinol drwy leihau absenoldeb salwch a'r gost gysylltiedig o ddarparu yswiriant ar gyfer yr absenoldeb hwnnw.

Polisi Absenoldeb a Chymorth Teuluol

Mae'r polisi hwn yn disodli elfennau o'r Polisi Balans Gweithio/Bywyd Personol cyfredol ac yn canolbwyntio ar y trefniadau gadael, tâl a chymorth ar draws nifer o feysydd sy'n gysylltiedig â'r teulu gan gynnwys mamolaeth, mabwysiadu, mabwysiadu trwy wryfodod, cymorth mamolaeth/mabwysiadu (tadolaeth gynt), absenoldeb rhiant a rennir, ac absenoldeb profedigaeth rhieni. Mae adolygu trefniadau polisi blaenorol yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol.

Mae'r newidiadau arfaethedig o fewn y polisi yn cynnwys:

- Amlinelliad o'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Amser Gwaith a hawl i wyliau blynyddol tra ar absenoldeb mamolaeth neu fabwysiadu.
- Amser i ffwrdd â thâl i bartneriaid fynyachu dau apwyntiad cynenedigol
- Darparu mwy o eglurdeb ar weithdrefnau, tâl a chymorth sydd ar gael ar draws cyfres o drefniadau absenoldeb teulu
- Pythefnos o dâl cyflog llawn am absenoldeb mamolaeth/mabwysiadu
- Yn cyflwyno absenoldeb profedigaeth statudol rhieni yn dilyn marwolaeth plentyn o dan 18 oed neu farw-enedigaeth o 24ain wythnos o feichiogrwydd, gan gynnwys pythefnos o gyflog llawn
- Darparu hyd at ddau ddiwrnod o absenoldeb â thâl i weithwyr sy'n cael triniaeth IVF yn ogystal ag amser i ffwrdd i fynyachu apwyntiad ysbyty
- Cyfeirio at Bolisi Gofalwyr y Cyngor sy'n amlinellu'r gefnogaeth i'r cyflogai hynny sydd â chyfrifoldebau gofal

Polisi Gwyliau ac Absenoldeb

Mae'r polisi hwn yn disodli elfennau o'r Polisi Balans Gweithio/Bywyd Personol cyfredol a'r Polisi Tâl Gwyliau ac Absenoldeb Blynyddol. Mae'r polisi yn canolbwyntio ar yr absenoldeb blynyddol, amser i ffwrdd ar gyfer dyletswyddau cyhoeddus, gwyliau arbennig ac absenoldebau. Mae adolygu trefniadau polisi blaenorol yn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gydymffurfio

â diwygiadau cytundebol i gyflogai o dan delerau ac amodau'r Cydgyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (NJC).

Mae'r newidiadau arfaethedig o fewn y polisi yn cynnwys:

- Ymgorffori'r newidiadau a wnaed i hawl gwyliau blynyddol i weithwyr NJC yn dilyn trafodaethau cyflog cenedlaethol 2022/23
- Yn adlewyrchu'r newidiadau i wyliau blynyddol penodol rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd sy'n sicrhau parhad y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd
- Yn lleihau'r cyfnod y gellir cymryd amser i ffwrdd (TOIL) o 13 wythnos i 8 wythnos
- Yn cyflwyno amser i ffwrdd â thâl i fynd i sgrinio canser
- Caniatáu hyd at 90 munud i ffwrdd i fynychu rhoi gwaed ond y disgwyliad yw bod y rhain yn cael eu trefnu y tu allan i oriau gwaith
- Egluro'r hawl a'r cymhwysedd ar gyfer gwyliau arbennig eraill

Polisi Gweithio'n Hyblyg

Mae'r polisi hwn yn disodli elfennau o'r Polisi Balans Gweithio/Bywyd Personol cyfredol ac mae hefyd yn ymgorffori elfennau o'r Polisi Gweithio Hybrid Dros Dro. Mae gan y polisi dri phrif faes: cynllun oriau hyblyg, cynllun gweithio hybrid a cheisiadau gweithio hyblyg ffurfiol.

Gall gweithio hyblyg ganiatáu i weithwyr gydbwyso eu hymrwymadau gwaith â'u cyfrifoldebau a'u diddordebau y tu allan i'r gwaith. Gall hyn helpu iechyd a lles, lleihau trosiant, cynyddu cymhelliant ac atyniad talent. Mae'r diwygiad i'r trefniadau polisi blaenorol yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Mae'r newidiadau arfaethedig o fewn y polisi yn cynnwys:

- Cynllun Flexi - yn lleihau i gyfnod cyfrifo o 4 wythnos a'r bandwith yn dychwelyd i bamedrau cyn Covid – 7:30am i 7:00pm
- Cynllun gweithio'n hybrid - dulliau gweithio'n lleihau i dri, anghenion y gwasanaeth yn parhau i fod yn brif egwyddor ac nad yw gweithio'n hyblyg yn cymryd lle cyfrifoldebau gofal
- Ceisiadau gweithio'n hyblyg – wedi'u diweddarau i sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth newydd ynghylch cymhwysedd a nifer y ceisiadau bob blwyddyn.

Polisi Atal a Rheoli Straen

Mae hwn yn bolisi newydd sy'n ceisio sefydlu dull effeithiol a chyson o atal straen sy'n ymwneud â gwaith ac i ddarparu gwasanaethau cefnogol lle nodir achosion o straen sy'n gysylltiedig neu nad yw'n gysylltiedig â'r gwaith. Bydd y polisi hefyd o gymorth i reolwyr a chyflogai i adnabod a rheoli straen mewn modd rhagweithiol.

Er y bydd pwysau a gofynion yn rhan o lawer o rolau yn y gweithle, mae yna ffactorau a gall arwain at weithwyr yn teimlo gormod o bwysau. Os na chaiff y rhain eu rheoli'n iawn, gallent arwain at fwy o salwch, pryder, iselder neu afiechyd meddwl arall. Mae'n bwysig nodi mai cyflwr yw straen, nid salwch, ond os caiff ei gamreoli gall arwain at ddatblygu salwch meddyliol a chorfforol. Bydd gostyngiad yn nifer y diwrnodau a gymerir yn flynyddol o ganlyniad i absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â straen o fudd i'r Cyngor o

ran cynhyrchiant a lleihau costau ar gyfer darparu yswiriant lle bo'n berthnasol, o absenoldeb y cyflogai hwnnw.

Mae'r polisi yn nodi fframwaith asesu risg straen sy'n cynnwys

- Asesiad Risg Straen Unigolyn
- Asesiad Risg Straen Tîm
- Asesiad Risg i'r Gweithlu

Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor (diwygiwyd)

Cymeradwywyd a gweithredwyd y Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor yn Chwefror 2022. Er mwyn helpu i weinyddu'r polisi yn weithredol, cynigiwyd rhai mân newidiadau fel a ganlyn:

- Diwygio'r Cytundeb Gyrru i Brococol Gyrru a dileu'r angen i yrwy cerbydau fflyd lofnodi'r ddogfen
- Ei gwneud yn glir bod angen i unrhyw newidiadau i allu'r gyrrwr i yrru'r cerbyd, boed oherwydd rhesymau iechyd neu broblemau trwyddedu, angen ei adrodd i'r goruchwyliwr a fydd felly'n hysbysu'r Rheolwyr Fflyd.
- Testun ychwanegol ar gyfer eglurhad o brofion ar gyfer cyffuriau rheoledig

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD argymhell i'r Cabinet GYMERADWYO'r polisiâu canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth Newydd ac i gefnogi recriwtio a chadw, iechyd a lles gweithwyr, ac effeithiolrwydd gweithredol:-

- (i) Polisi Absenoldeb a Chymorth Teuluol;
- (ii) Polisi Gwyliau ac Absenoldeb;
- (iii) Polisi Gweithio'n Hyblyg;
- (vi) Polisi Atal a Rheoli Straen;
- (v) Polisi Gyrru yn y Gwaith – Fflyd y Cyngor; ac
- (iv) yn amodol ar gymeradwyaeth eitem (ii), y polisi dan y teitl Polisi Gwyliau ac Absenoldeb, i gynnwys bod Oedolion Gwirfoddol i'r Llu Cadetiaid yn gymwys i hyd at 5 diwrnod i absenoldeb â thâl. Mae'r Awdurdod mewn sefyllfa felly i wneud cais am Wobr Aur ERS (Ar hyn o bryd wedi ennill Gwobr Arian).

4 Adroddiad ar Gofnod Ystadegol ac Adroddiad y Prif Grwner yr Uwch Grwner Ceredigion 2022

Ystyriwyd Adroddiad ar Gofnod Ystadegol ac Adroddiad y Prif Grwner yr Uwch Grwner Ceredigion 2022. Mae Uwch Grwner Ceredigion yn paratoi adroddiad blynyddol ('Cofnod Ystadegol') ar farwolaethau â adroddwyd i'r Crwner, a ddanfonwyd at y Weinyddiaeth Gyfiawnder i'w cyhoeddi fel rhan o Gofnod Ystadegol Crwneriaid ar wefan Llywodraeth y DU.

Dylai'r Uwch Grwner hefyd ddarparu adroddiad i'r Cyngor a ddylai gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, gynnwys ystadegau perthnasol ar achosion presennol/gorffenedig (gyda ffigyrau sy'n cymharu i flynyddoedd cynt), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb o dîm y Crwner a threfniadau staffio, ac unrhyw cynlluniau i'r dyfodol. Hyd yn hyn, nid yw'r adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Cyngor gan yr Uwch Grwner.

Darparwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol ar y canlynol:-

- Cofnod Ystadegol Ceredigion ar gyfer 2022
- Adroddiad y Prif Grwner
- Meddalwedd ac Offer TG
- Cwestau 2023

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD

(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth; a

(ii) y byddai'r Pwyllgor yn ysgrifennu at yr Uwch Grwner â chais am adroddiad o fewn 3 mis i'r Cyngor a ddylai gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor, a chynnwys ystadegau perthnasol ar achosion presennol/gorffenedig (gyda ffigyrau sy'n cymharu â blynyddoedd cynt), diweddariad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb o dîm y Crwner a threfniadau staffio, ac unrhyw gynlluniau i'r dyfodol, gan ei bod yn bwysig i dderbyn adroddiad Awdurdod Lleol, i gefnogi'r Cyngor gyda'i drefniadau o fod yn dryloyw ac yn atebol i'r corff cyhoeddus, o ystyried y ffaith mai'r Cyngor sy'n rhoi darparu cyllid a gwasanaethau maes coronaidd Ceredigion.

5 Adroddiad hanner blwyddyn Cwynion, Canmoliaeth a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth hanner blwyddyn. Adroddwyd bod yr adroddiad yn darparu gwybodaeth yn ymwneud â gweithgaredd Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023. Darparwyd yr adroddiad manwl fel atodiad 1 ac mae'n cynnwys gwybodaeth benodol am nifer a math y ganmoliaeth a dderbyniwyd, y gwahanol gamau cwynion a gwybodaeth ynghylch perfformiad a chanlyniadau.

Cydnabuwyd bod heriau'n parhau mewn perthynas â chymhlethdod y cwynion a dderbyniwyd ac mae cynnydd cyson yn yr holl weithgarwch a reolir gan Dîm Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth y Cyngor.

Trosolwg Bras:

171 o ganmoliaeth wedi'u derbyn

180 Proseswyd ymholiadau gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

116 o gwynion wedi'u derbyn: Cam 1 = **68** Cam 2 = **48**

19 o 'gysylltiadau' wedi'u derbyn trwy Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

523 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth

Amgylcheddol wedi'u prosesu gan y Gwasanaeth Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth

Ar hyn o bryd, roedd yn amlwg bod mwy o gwynion wedi dod i law yn ystod y cyfnod adrodd hwn nag yn y blynyddoedd cynharach. Roedd ymdrechion yn parhau i ymgysylltu'n gadarnhaol â'r holl feysydd gwasanaeth i ddatrys cwynion yn effeithlon ac yn effeithiol.

- Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddelio gyda nifer sylweddol o 'ymholiadau' – er y byddai'r rhain fel arfer yn cael eu cyfeirio at wasanaethau ar gyfer datrysiad uniongyrchol. Er mwyn egluro, 'ymholiad' oedd y term a neilltuwyd i bryderon sydd naill ai'n gynamserol ac nad ydynt eto'n cyrraedd trothwy 'cwyn', neu roeddent yn bryderon a dderbyniwyd lle nad yw'r polisïau cwynion yn berthnasol (h.y. 'penderfyniadau a wneir yn briodol', cwynion sydd allan o amser, neu faterion y dylid mynd i'r afael â hwy drwy ddulliau eraill ac ati). Felly, mae angen ymateb cynhwysfawr ac ystyrlon o hyd.

Mae llawer iawn o waith yn parhau i gael ei wneud gan y Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth i atal cwynion Cam 1 rhag cynyddu i Gam 2 yn ddiangen, oherwydd nad oedd yn bosibl ymateb o fewn yr amser a ragnodwyd o ddeg diwrnod gwaith.

- Ystyriwyd hefyd bod cydymffurfio â therfynau amser o dan Gam 2 yn faes yr oedd angen sylw arno, er bod hyn yn cael ei briodoli'n bennaf i'r heriau a wynebier gan y Tîm Cwynion a'r Rhyddid Gwybodaeth yng ngoleuni'r cynnydd mewn llwythi gwaith.

Meysydd i ffocysu arnynt

- Gwella perfformiad mewn perthynas â chwrdd â therfynau amser rhagnodedig a nodir mewn polisïau cwynion a deddfwriaeth
- Atgyfnerthu'r egwyddor y dylai cwynion fod yn eiddo i'r holl staff a gwasanaethau ledled y Cyngor
- Parhau gydag ymagwedd agored, tryloyw ac sy'n canolbwyntio ar y dinesydd tuag at ddatrys pryderon Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD nodi cynnwys yr adroddiad hwn cyn ei gyflwyniad yng nghyfarfod y Cabinet ar 14 Mai 2024.

6 Strategaeth Digidol

Cyflwynodd y Cynghorydd Catrin M S Davies y Strategaeth Ddigidol 2024-2030. Adroddwyd bod y gwasanaeth Cyswllt Cwsmeriaid, TGCh a Digidol wedi datblygu strategaeth ddigidol newydd ar ôl i Strategaeth TGCh a Digidol 2018 ddod i ben. Fel rhan o'r broses o baratoi'r drafodaeth strategaeth hon a gynhaliwyd ar draws yr awdurdod, cynhaliwyd gweithdy aeddfedrwydd digidol a gefnogwyd gan CLILC a sefydliad *Data Driven* a gynhaliwyd gan ymgynghoriaeth ac roedd Archwilio Cymru wedi cynnal archwiliad i'n meddylfryd Strategaeth Ddigidol a oedd wedi helpu i lunio gofynion. Cafodd strategaethau craidd ar draws Cymru eu hystyried hefyd.

Roedd y strategaeth un tymor hir a'r nod yw cyflawni tri chynllun digidol bob dwy flynedd a allai gyflawni'r canlyniadau strategol a amlinellir gyda'r strategaeth. Mae'r strategaeth yn ceisio darparu "Ceredigion sy'n Hyderus yn Ddigidol, sir a oedd yn hyderus i ddatblygu, arloesi a darparu gwasanaethau digidol mewn partneriaeth â'n cymunedau. Cymunedau sy'n gysylltiedig, yn ymgysylltu ac yn barod i elwa ohonyn nhw".

Nod y strategaeth yw cyflawni'r canlyniadau hyn o dan dair maen strategol:

1. Sefydliad Digidol

2. Trigolion Digidol
3. Cymunedau Digidol

Dyluniwyd y strategaeth i gefnogi'r cenadaethau digidol cenedlaethol ac i gefnogi Ceredigion i gyflawni eu 4 amcan corfforaethol.

- Hybu'r economi, cefnogi busnesau, a galluogi cyflogaeth
- Creu cymunedau gofalgar ac iach
- Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi addysg i bob oed
- Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd a chysylltiedig

Byddai'r strategaeth yn rhagweld dulliau digidol yn cael ei ymgorffori ar draws yr holl wasanaethau a strategaethau i sicrhau bod gwasanaethau arloesol ac effeithlon yn cael eu darparu i bawb. Byddai'r amcanion canlynol yn cael eu cyflawni:-

- Datblygu gweithlu medrus, hyderus sydd â'r gallu a'r sgiliau i addasu ac arloesi.
- Cefnogi'r gymuned i fod yn hyderus yn ddigidol, yn gallu cael mynediad ac elwa o wasanaethau digidol.
- Cefnogi darparu gwelliannau cysylltedd digidol ar gyfer y sir i gyd.
- Darparu gwasanaethau TGCh cynaliadwy, gwydn a diogel i'r cyngor a'i bartneriaid.
- Cefnogi datblygiad a chyflwyniad model a ragnodir yn gymdeithasol sy'n creu cymunedau gofalgar ac arloesol.
- Cefnogi'r gwaith o ddarparu datrysiadau Technoleg Galluogi Gofal sy'n galluogi annibyniaeth.
- Datblygu sgiliau arwain digidol ar draws y gweithlu.
- Darparu'r offer a'r systemau i'n staff allu weithio'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Darparu gwasanaethau digidol aeddfed sy'n lleihau biwrocratiaeth, gan wella effeithlonrwydd i ddarparu buddion ariannol go iawn.
- Darparu datrysiadau digidol sy'n cefnogi cyflwyno Sero Net.
- Mae gweithio i sicrhau diogelwch a gwytnwch yn sail i bopeth a wnawn.
- Gwneud gwell defnydd o ddata i gefnogi penderfyniadau a dod yn sefydliad sy'n cael ei redeg gan ddata.
- Rhoi mynediad 24/7 i ddinasyddion i wasanaethau trwy Fy Nghyfrif a gwasanaethau ar-lein.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i:-

(i) argymhell cymeradwyo Strategaeth Ddigidol 2024-2030 gan y Cabinet;

(ii) argymhell y strategaeth ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus; a

(iii) argymhell cyflwyno'r strategaeth yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus i'r Pwyllgor i'w hystyried, cyn cymeradwyaeth y Cabinet.

7

Blaenraglen Waith

PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y cyfarfod blaenorol.

- 8 Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion.**
PENDERFYNWYD cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfod y cyfarfod blaenorol.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau
Corfforaethol a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 21 Mawrth 2024**

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell Ddydd Iau, 21 Mawrth 2024

YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Ifan Davies, Endaf Edwards, Elaine Evans, Eryl Evans, Raymond Evans, Rhodri Evans, Paul Hinge, Hugh Hughes, Ceris Jones, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a Carl Worrall.

(12.11pm-12.14pm)

1 Ymddiheuriadau

Dim.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

Dim.

3 Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.

Cynigiodd y Cynghorydd Paul Hinge ac eiliwyd gan y Cynghorydd Rhodri Evans bod y Cynghorydd Elaine Evans yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cynghorydd Elaine Evans yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

4 Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn fwrdeistrefol 2024/25, gan ddechrau ar 17 Mai 2024.

Cynigiodd y Cynghorydd Ifan Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd Euros Davies bod y Cynghorydd Rhodri Evans yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

PENDERFYNWYD yn unfrydol bod y Cynghorydd Rhodri Evans yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn Gyngor nesaf.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2024

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol